## Gwerthusiad

# Prosiect Adeiladu Gallu CCGC

**Fersiwn 1.2 – 18 Mawrth 2026**

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## Contents

**Rhestr termau a thalfyriadau** ... 3

**Crynodeb gweithredol** ... 4

1. **Cyflwyniad** ... 7

2. **Methodoleg** ... 8

3. **Prosesau'r prosiect** ... 10

   **3.1 Dechrau'r prosiect** ... 10

   **3.2 Proses ymgeisio am y Gronfa Allweddol** ... 11

   **3.3 Rheoli grantiau'r Gronfa Allweddol** ... 14

4. **Prosiectau a gefnogwyd gan Gronfa Allweddol Adeiladu Gallu CCGC** ... 17

   **4.Cyflwyniad** ... 17

   **4.2 Micro-brosiectau neu brosiectau byr** ... 18

   **4.3 Prosiectau refeniw yn ymestyn dros sawl mis** ... 23

   **4.4 Prosiectau buddsoddi** ... 28

   **4.5 Themâu ar draws yr ystod o brosiectau a gefnogwyd** ... 33

5. **Adeiladu gallu – anariannol** ... 34

   **5.1 Cyflwyniad** ... 34

   **5.2 Cynhadledd CCGC** ... 34

   **5.3 Hyfforddiant / Digwyddiadau cefnogi y Trydydd Sector** ... 39

   **5.4 Ymchwil** ... 42

6. **Cynnydd tuag at allbynnau a chanlyniadau** ... 43

7. **Casgliadau, gwersi a ddysgwyd ac argymhellion** ... 45

   **7.1 Casgliadau** ... 45

**Atodiad A – Model rhesymeg prosiect** ... 50

**Atodiad B – Canllaw pwnc enghreifftiol** ... 53

**Atodiad C – Trosolwg o brosiectau a gafodd gefnogaeth ariannol** ... 55

**Atodiad D – Crynodeb adborth o'r gynhadledd** ... 67

**Atodiad E – Crynodeb o waith dilyn i fyny newid ymddygiad cynrychiolwyr y gynhadledd** ... 75

**Atodiad F – Crynodeb o adborth cyfranogwyr digwyddiad hyfforddi** ... 79

## Rhestr termau a thalfyriadau

| | |
|---|---|
| Cynhadledd | Cynhadledd CCGC a gynhaliwyd yn Venue Cymru, Llandudno ar 13 Tachwedd 2025 |
| Cronfa Allweddol | Cronfa Allweddol Adeiladu Gallu CCGC |
| UKSPF | Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig |

# Crynodeb gweithredol

**Cefndir**

Cyflawnwyd Prosiect Adeiladu Gallu CCGC rhwng mis Mehefin 2025 a mis Mawrth 2026, gyda chefnogaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF). Cafodd y prosiect ei lunio gyda thair elfen: Cronfa Allweddol gwerth £400,000 yn darparu grantiau i sefydliadau trydydd sector yn Sir Conwy; rhaglen o gefnogaeth adeiladu gallu anariannol, gan gynnwys cynhadledd a hyfforddiant ledled y sir; ac elfen lai o ymchwil i ddarpariaeth trafnidiaeth gymunedol. Roedd y prosiect yn cyd-fynd ag is-themâu Iach a Chynhwysol UKSPF.

Cynhaliodd 20 Degrees Consulting Ltd werthusiad annibynnol gan ddefnyddio cyfweliadau â rhanddeiliaid, arolygon, astudiaethau achos a data monitro, wedi'u harwain gan fodel rhesymeg prosiect ac yn gyson ag egwyddorion Llyfr Magenta Trysorlys EM.

**Cyflawni a Rheoli**

Er gwaethaf cyfnod cyflawni cywasgedig, rheolodd CCGC y prosiect yn effeithiol. Dechreuwyd hyrwyddo'r Gronfa Allweddol a'r gynhadledd cyn cael cymeradwyaeth ffurfiol, gan liniaru'r pwysau ar fuddiolwyr, i ryw raddau, tra'n cynnal diogelwch ariannol priodol. Teimlwyd yn gyffredinol fod y broses ymgeisio yn gymesur ac yn gefnogol. Roedd ymgeiswyr yn gwerthfawrogi hygyrchedd, gwybodaeth leol a pharodrwydd CCGC i ddarparu canllawiau cyn ymgeisio. Roedd prosesau gwneud penderfyniadau yn gadarn ac yn dryloyw. Teimlwyd fod gofynion monitro yn briodol i faint y grant. Cynorthwyodd hyblygrwydd mewn mynd i'r afael â thanwariant i gael y canlyniadau gorau posibl.

**Cyflawniad y Gronfa Allweddol a'r Gwahaniaeth a Wnaed**

Cymeradwywyd 42 o grantiau, gwerth £412,090. Roedd prosiectau'n amrywio o ddigwyddiadau cymunedol bach i wasanaethau a ariennir gan refeniw a mentrau buddsoddi neu ddichonoldeb. Ar draws y portffolio roedd cyllid naill ai'n galluogi gweithgaredd na fyddai wedi digwydd fel arall neu'n gwella ei faint a'i ansawdd. Roedd themâu cryf yn cynnwys cynhwysiant cymdeithasol trwy fynediad am ddim, gwell iechyd a lles, cydlyniant cymunedol a chynaliadwyedd gwirfoddolwyr cryfach.

Roedd cyfleoedd gwirfoddoli a gefnogwyd ac a grëwyd yn sylweddol uwch na'r targed. Roedd maint cyffredinol y cyfraniad i gymunedau yn sylweddol. Yn bwysig, dangosodd sawl prosiect buddsoddi a dichonoldeb botensial ar gyfer gwaddol, gan gynnwys datblygu ynni adnewyddadwy, caffael asedau cymunedol, trawsnewid

manwerthu a sefydlu Parkrun. Pwysleisiodd buddiolwyr fod cyllid ar gyfer camau datblygu o'r fath yn brin, ond yn hollbwysig i ddatgloi canlyniadau tymor hwy.

**Adeiladu Gallu Anariannol**

Denodd Cynhadledd CCGC, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2025, 221 o fynychwyr a 33 o arddangoswyr. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn, gyda sgoriau bodlonrwydd uchel a thystiolaeth glir o ddysgu. Sesiynau ymarferol, seiliedig ar offer, yn enwedig yn ymwneud ag AI a chyfathrebu digidol, a ddangosodd y trosiad cryfaf i newid sefydliadol.

Cafodd digwyddiadau hyfforddi annibynnol hefyd dderbyniad da, gan gynyddu gwybodaeth, hyder ac ymwybyddiaeth o arfer gorau. Dywedodd y cynrychiolwyr fod galw parhaus am gefnogaeth mewn ariannu cynaliadwyedd, rheoli gwirfoddolwyr, diogelu a llywodraethu.

**Perfformiad o Gymharu â Thargedau**

Rhagorwyd ar yr holl allbynnau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys nifer y sefydliadau oedd yn derbyn grantiau a chefnogaeth anariannol. Roedd cyfleoedd gwirfoddoli a gefnogwyd ac a grëwyd yn sylweddol uwch na'r disgwyl, ac arweiniodd astudiaethau dichonoldeb at fwy o brosiectau nag a ragwelwyd.

**Casgliadau, Gwersi a Ddysgwyd ac Argymhellion**

Rhoddodd y prosiect werth ychwanegol clir i'r trydydd sector yng Nghonwy. Gwelwyd gwelliant mewn gwerth am arian wrth i CCGC leihau ei gyfraniad at gostau cyflogau a gorbenion, gan ailddyrannu'r arian hwn i fuddiolwyr. Nodweddwyd dull CCGC gan bragmatiaeth, cymesuredd a dealltwriaeth gref o'r cyd-destun lleol. Cryfhaodd y cyfuniad o gefnogaeth ariannol ac anariannol wydnwch sefydliadol, galluogodd weithgarwch cymunedol a chefnogodd ddatblygiad gwirfoddolwyr.

Roedd gwersi allweddol yn cynnwys gwerth rheoli cronfeydd cydgysylltiedig ar draws ffrydiau ariannu lluosog; pwysigrwydd cynnal dull cyffyrddiad ysgafn a galluogol ar gyfer gweinyddu grantiau; a'r potensial sylweddol o ran gwaddol cynnwys prosiectau buddsoddi a dichonoldeb o fewn y portffolio o brosiectau buddiolwyr a gefnogwyd.

Cynigiwyd naw argymhelliad, gyda llawer ohonynt yn canolbwyntio ar gymhwyso arfer da'r prosiect hwn i reoli cronfeydd yn y dyfodol. Roedd argymhellion eraill yn cynnwys cryfhau monitro cydnabyddiaeth cyllidwyr gan fuddiolwyr ac ystyried sut y gallai cynadleddau yn y dyfodol fod yn fwy fforddiadwy i CCGC.

Ar y cyfan, rhagorodd y prosiect ar ddisgwyliadau o fewn amserlen gyfyngedig a gwnaeth gyfraniad ystyrlon at iechyd, lles, cynhwysiant a gwydnwch cymunedol ledled Sir Conwy.

## 1. Cyflwyniad

Cefnogwyd Cronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol CCGC gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) rhwng mis Mehefin 2025 a mis Mawrth 2026. Cymeradwywyd y prosiect gyda thair elfen benodol:

- Cronfa allweddol gwerth £400,000 i gefnogi mentrau gan 16 o sefydliadau trydydd sector yng Nghonwy
- Rhaglen hyfforddiant adeiladu gallu ar gyfer sefydliadau trydydd sector yn y sir, gan gynnwys cynhadledd
- Ymchwil i ddarpariaeth trafnidiaeth gymunedol yn Sir Conwy

Mapiwyd y prosiect ar ddwy is-thema UKSPF sef:

- Iach: Gwella iechyd a lles
- Cynhwysol: Dod â chymunedau ynghyd, mynd i'r afael â digartrefedd

Disgwyliwyd i'r prosiect gyflawni cymysgedd o allbynnau a chanlyniadau:

Targedau allbynnau:

- Dyfarnu 16 grant i sefydliadau sy'n gweithio yn Sir Conwy
- Darparu cefnogaeth anariannol i 100 o sefydliadau
- Cefnogi parhad 30 o gyfleoedd gwirfoddoli yn Sir Conwy
- Cefnogi datblygiad 3 astudiaeth ddichonoldeb

Targedau canlyniadau:

- Cefnogi creu 45 o gyfleoedd gwirfoddoli yn Sir Conwy
- Creu dau gyfle prosiect trwy ariannu astudiaethau dichonoldeb

Penodwyd 20 Degrees Consulting Ltd i gynnal gwerthusiad o'r prosiect ym mis Gorffennaf 2025 yn dilyn proses dendro gystadleuol gan ddefnyddio GwerthwchiGymru. Yr adroddiad hwn yw canlyniad y gwerthusiad hwnnw.

## 2. Methodoleg

Datblygwyd model rhesymeg ar gyfer y prosiect ar ddechrau'r gwerthusiad ac fe'i cymeradwywyd gan dîm CCGC. Atgynhyrchir hwn yn Atodiad A. Gosododd hyn linell sylfaen ynghylch sut y disgwylid i'r prosiect weithio a llywiodd fframwaith ymchwil y gwerthusiad.

Roedd y gwerthusiad yn seiliedig ar arfer gorau, fel y nodir yn Llyfr Magenta Trysorlys EM.[1] Defnyddiodd y gwerthusiad ganfyddiadau o gymysgedd o ddulliau ymchwil a gwybodaeth fonitro:

- Cyfweliadau â rhanddeiliaid – lled-strwythuredig – (dewis o Gymraeg neu Saesneg). Gellir dod o hyd i ganllaw pwnc cyfweliad enghreifftiol yn Atodiad B.
- Arolwg – dilyn i fyny o'r gynhadledd
- Astudiaethau achos – cymysgedd o ffilmiau ac ymatebion ysgrifenedig
- Postiadau cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r prosiect a'i fuddiolwyr
- Defnydd gwybodaeth monitro prosiect

Darperir crynodeb o gyfranogiad yn nhabl 2.1.

***Tabl 2.1 – Crynodeb o gyfranogiad mewn gwerthusiad yn ôl dull ymchwil***

| Grŵp rhanddeiliaid | Dull ymchwil | Nifer a holwyd | Nifer a gwblhaodd |
|---|---|---|---|
| Tîm CCGC | Cyfweliad | 3 | 3 (100%) |
| Sefydliadau a gefnogwyd gan y Gronfa Allweddol | Cyfweliad | 29 | 22 (76%)[a] |
| | Astudiaeth achos wedi'i ffilmio | 4 | 4 (100%) |
| Pobl yn mynychu cynhadledd CCGC | Arolwg | 14[b] | 13 (93%) |

(a) Cynhaliwyd dau o'r cyfweliadau hyn yn y Gymraeg. Roedd un person arall yn fodlon cael ei gyfweld ond nid oedd yn gallu gwneud hynny o fewn ffenestr amser y cyfweliadau.

(b) Gofynnodd CCGC i fynychwyr Cynhadledd Tachwedd 2025 roi adborth am y diwrnod. Cafwyd 35 o ymatebion ond dim ond 15 a roddodd ganiatâd i 20 Degrees ail-gysylltu er mwyn deall i ba raddau yr oedd dysgu o'r digwyddiad yn

[1] Trysorlys EM (2011) Llyfr Magenta. Ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book. Cyrchwyd 6 Chwefror 2026

trosi'n fuddion i'r unigolyn neu eu sefydliad. Roedd un o'r rhain yn ymddiriedolwr CCGC felly cafodd ei eithrio er mwyn osgoi rhagfarnu'r sampl.

Roedd y dogfennau a ddarparwyd i'r gwerthusiad gan dîm CCGC yn cynnwys:

- Contract rhwng Cyngor Gwynedd a CCGC, gan gynnwys y cais am y prosiect a chrynodeb o allbynnau a chanlyniadau targed
- Traciwr prosiect
- Enghraifft o ffurflenni cais i'r Gronfa Allweddol
- Enghraifft o asesiadau grant sy'n gysylltiedig â phob cais
- Cofnodion cyfarfod y prif banel sy'n dyrannu grantiau'r Gronfa Allweddol (3 Gorffennaf 2025)
- Ffurflenni monitro grantiau a gwblhawyd gan sefydliadau buddiolwyr ar ddiwedd eu prosiectau
- Adroddiadau monitro prosiectau a baratowyd ar gyfer Cyngor Gwynedd gan CCGC
- Adborth o Gynhadledd Tachwedd 2025
- Casgliad o sylwadau cyfryngau cymdeithasol ar y Gynhadledd
- Adborth o ddigwyddiadau hyfforddi

# 3. Prosesau'r prosiect

## 3.1 Dechrau'r prosiect


Roedd y prosiect yn estyniad blwyddyn i brosiect Adeiladu Gallu presennol CCGC, yn deillio o estyniad pontio blwyddyn o UKSPF cyn i'r Gronfa honno gael ei disodli. O ganlyniad, roedd tîm y prosiect wedi datblygu a mireinio'r holl brosesau angenrheidiol i gynnal y prosiect yn effeithiol.

Er bod cyllid y prosiect yn dybiannol o fis Ebrill 2025 i fis Mawrth 2026, ni dderbyniodd CCGC gymeradwyaeth ffurfiol o'r prosiect tan fis Mehefin 2025. Yna bu cyfnod byr o oedi pellach tra bod CCGC yn gofyn am, ac yn derbyn, taliad ymlaen llaw i gefnogi grantiau'r Gronfa Allweddol i ymgeiswyr llwyddiannus o'r trydydd sector. Roedd prosiectau gan dderbynwyr grantiau'r Gronfa Allweddol i fod i gael eu cwblhau erbyn canol mis Ionawr 2026 er mwyn gallu cau, adrodd ar a gwerthuso prosiectau'n effeithiol. Yn ymarferol, dim ond saith mis a roddodd hyn i sefydliadau buddiolwyr gyflawni eu prosiectau, cyfnod a oedd yn cynnwys y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Mabwysiadodd CCGC ddull seiliedig ar risg ar gyfer dechrau'r prosiect, gan gofio bod angen cymaint o amser â phosibl ar ymgeiswyr llwyddiannus i'r Gronfa Allweddol i gyflawni prosiectau llwyddiannus. Hefyd, roedd angen ymdrech sylweddol i drefnu'r Gynhadledd. Dechreuwyd hyrwyddo'r Gronfa Allweddol a'r trefniadau cychwynnol ar gyfer y Gynhadledd cyn derbyn y llythyr dyfarnu grant ffurfiol, er na wnaeth CCGC unrhyw ymrwymiadau ariannol ar y cam hwnnw.

***Ffigur 3.1 – Dechreuodd gwaith hyrwyddo Cynhadledd CCGC a'r broses ymgeisio ar gyfer y Gronfa Allweddol cyn dyfarniad ffurfiol y grant***

Ffynhonnell: https://www.facebook.com/conwyvol, 25 Ebrill 2025 a 9 Mai 2025



Roedd y sampl o ymgeiswyr i'r Gronfa Allweddol yn gallu nodi sut roeddent wedi clywed am y Gronfa Allweddol yn nhrefn amlder:

- E-gylchlythyr gan CCGC – nododd y mwyafrif mai'r dull uniongyrchol hwn oedd sut y gwnaethant glywed am y cyfle
- Cyswllt neu gais i Gronfa arall a reolir gan CCGC, fel arfer Cronfa Gwynt-y-Môr[2]
- Yr ymgeisydd yn cysylltu â CCGC i ofyn pa gyfleoedd cyllido oedd ar gael ar gyfer prosiect penodol oedd ganddynt mewn golwg
- Atgyfeiriad gan Gyngor Conwy, fel arfer gan dîm sy'n rhedeg cronfa gymunedol arall a gefnogir gan UKSPF
- Gwaith hyrwyddo CCGC ar gyfryngau cymdeithasol.

### 3.2 Proses ymgeisio am y Gronfa Allweddol

Roedd gofyn i ymgeiswyr i'r Gronfa Allweddol lenwi ffurflen gyda'r elfennau canlynol:

- Gwybodaeth sylfaenol am eu sefydliad
- Disgrifiad o'u prosiect, gan gynnwys pam yr oedd ei angen, pa mor hir y byddai'n para, pa fuddion tymor byr a hirdymor y gellid eu disgwyl i'r gymuned, tystiolaeth o gefnogaeth, sut roedd y prosiect yn cyd-fynd â themâu UKSPF a sut y byddai gwaddol yn cael ei gynnal
- Manylion ariannol y prosiect, ynghyd â manylion rheolaeth ariannol a chydymffurfiaeth â rheolaeth cymorthdaliadau'r DU
- Cadarnhad o gymeradwyaeth y bwrdd / ymddiriedolwyr / pwyllgor rheoli ar gyfer y cais

Dywedodd ymgeiswyr i'r Gronfa Allweddol yn gyson fod y broses ymgeisio yn syml ac yn addas at y diben. Roedd cwestiynau'r cais yn unol â'r hyn a ddisgwyliwyd gan ymgeiswyr ac ni theimlwyd bod yr un ohonynt yn ddiangen.

> *"Rhyddhad mawr. Syml, byr, i'r pwynt."*
> Sylwadau derbynnydd grant ar y broses ymgeisio

> *"Roedd yn hawdd i ddefnyddwyr, ac roedd yn gymesur â swm y cyllid yr oeddem yn gofyn amdano."*
> Sylwadau derbynnydd grant ar y broses ymgeisio

---

[2] Cefnogodd Fferm Wynt Alltraeth Gwynt-y-Môr geisiadau gan gymunedau arfordirol Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint trwy fuddsoddiad hirdymor o £19 miliwn dros oes y fferm wynt. Gweinyddodd CCGC y Gronfa mewn cydweithrediad â Chynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Mae rhagor o fanylion ar gael yn [https://cvsc.org.uk/en/for-organisations/funding/home](https://cvsc.org.uk/en/for-organisations/funding/home). Cyrchwyd 9 Chwefror 2026

Awgrymodd rhai o gynrychiolwyr y buddiolwyr fod rhwyddineb y broses ymgeisio oherwydd bod CCGC yn deall cyfansoddiad a chyd-destun y trydydd sector yn lleol.

> *“Roedden nhw ar ben arall y ffôn. […] Cawsom sgwrs gyda nhw, mynd trwy bethau. Roedd hynny’n ddefnyddiol, dim ond i sicrhau […] y byddai ein prosiect yn cyd-fynd â’u meini prawf. […] Roedd yn ddefnyddiol cael y sgwrs honno. Ac mae’n gwneud byd o wahaniaeth i gael y math lleol yna o gyswllt, y sefydliad lleol yna, ychydig o ddal llaw.”*
> Derbynnydd grant

> *“[Mae CCGC yn gefnogol] ac yn amyneddgar hefyd, a bod yn deg. Ac yn amlwg, mae ganddynt ddealltwriaeth ein bod ni i gyd yn wirfoddolwyr ac yn gwerthfawrogi’r elfen honno. Nid yn aml y mae cyllidwyr yn gwerthfawrogi’r ffaith bod y rhan fwyaf o’r prosiectau hyn yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr.”*
> Derbynnydd grant

Er bod rhai ymgeiswyr yn teimlo’n brofiadol mewn ysgrifennu cynigion ac nad oedd angen cymorth ychwanegol gan CCGC arnynt, siaradodd y mwyafrif â staff CCGC cyn gwneud cais i gael eglurhad am addasrwydd eu prosiect arfaethedig. Mewn rhai achosion arweiniodd hyn at staff CCGC yn adolygu ceisiadau drafft ac yn gwneud awgrymiadau i wella pa mor addas oedent i’r Gronfa Allweddol. Roedd ymgeiswyr yn tueddu i ystyried CCGC fel galluogwr cadarnhaol y broses ymgeisio.

> *“Mae fel petai’n rhywun sydd yno i wneud pethau ychydig yn haws i chi, nid i osod rhwystrau. Maen nhw eisiau rhoi’r arian i chi. Maen nhw eisiau i chi allu cefnogi pobl.”*
> Derbynnydd grant yn gwneud sylwadau ar rôl CCGC yn y broses ymgeisio

Unwaith y derbyniwyd y prif lythyr cynnig grant ar gyfer y prosiect a bod CCGC wedi cael caniatâd i wneud taliadau ymlaen llaw i dderbynwyr grantiau trydydd sector y Gronfa Allweddol, cynhaliwyd panel cymeradwyo ar 3 Gorffennaf 2025.

Cynhyrchwyd cofnodion cynhwysfawr ar gyfer y panel cymeradwyo hwn, gan alluogi dealltwriaeth dda o’r trafodaethau a gynhaliwyd. Roedd yn amlwg bod lefel dda o drafodaeth o fewn y panel, gyda chraffu priodol ar geisiadau gyda’r bwriad o ganfod i ba raddau y gellid cyflawni prosiectau o fewn amserlen gyfyngedig y fenter a rhoi buddion da i gymunedau priodol. Mae Tabl 3.1 yn crynhoi’r gyfradd gymeradwyo o’r cyfarfod hwn.

***Tabl 3.1 – Cyfradd cymeradwyo prosiectau (Panel a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2025)***

| | **Nifer y prosiectau** | **Canran o gyfanswm y prosiectau a ystyriwyd** |
|---|---|---|
| Prosiectau a gymeradwywyd | 20[(a)] | 51% |
| Prosiectau a gymeradwywyd yn rhannol (ymrwymiad ariannol a chanlyniadau is) | 7 | 18% |
| Prosiectau a wrthodwyd | 11 | 28% |
| Gofynnwyd am ragor o wybodaeth cyn y gellid gwneud penderfyniad | 1[(b)] | 3% |

(a) Cymeradwywyd dau brosiect gyda grant ychydig yn uwch na'r hyn y gofynnwyd amdano. Mewn un achos, roedd y panel yn ymwybodol o gais ategol i gyllidwr arall a oedd wedi'i ordanysgrifio a gyda'r llall ystyriwyd faint yr angen cymunedol.

(b) Er bod y panel eisiau cefnogi'r prosiect hwn, mewn egwyddor, nid oedd y sefydliad yn gallu cyflawni'r prosiect o fewn amserlen y cyllid. O ganlyniad, ni chefnogwyd y prosiect.

Ar y cam hwn, roedd gwerth y Gronfa Allweddol yn £400,000, er y byddai'n cynyddu'n ddiweddarach, a gwerth y ceisiadau oedd £559,642.04. Dyrannodd y panel £300,837.10[3] o gymorth grant. Yn ogystal, gwnaeth y panel argymhellion i 12 ymgeisydd ynghylch gwelliannau mewn polisïau allweddol, yn gyffredinol diogelu neu lywodraethu. Ym mhob achos cynigiodd CCGC helpu'r ymgeiswyr i wneud y gwelliannau hyn. Roedd rhai buddiolwyr yn awyddus i nodi bod y cyllid a gynigiwyd trwy CCGC yn bwysig ond nad oedd yn cynrychioli'r holl fudd a gynigiwyd gan CCGC.

> *"Mae angen y math hwn o fuddsoddiad ar grwpiau cymunedol ynghyd â'r gefnogaeth gofleidiol y mae CCGC yn ei darparu. Mae llawer o werth ychwanegol yn hyn. Y cyllido, nid dim ond y grant ydyw. Mae'n llawer mwy na'r grantiau yn unig, yn tydi? Felly mae'n amhrisiadwy i grwpiau cymunedol er mwyn eu galluogi i gychwyn prosiectau."*
>
> Derbynnydd grant yn pwysleisio pwysigrwydd cyllid a chyngor

[3] Gellid bod wedi ymrwymo £13,660.36 pellach pe bai'r un prosiect y ceisiwyd gwybodaeth ychwanegol amdano wedi cael ei gymeradwyo.

Nododd sefydliadau buddiolwyr y dyrannwyd cyllidebau llai iddynt eu bod yn deall bod yr arian sydd ar gael yn llai na chyfanswm yr arian y gofynnwyd amdano gan y sector. O ganlyniad, cadwodd CCGC ymddiriedaeth y sector. Er ei fod yn cydnabod y safbwynt hwn, nododd y Rheolwr Prosiect Adeiladu Gallu yr anghydbwysedd pŵer rhwng y cyllidwr a'r buddiolwr, a allai dawelu unrhyw anesmwythyd gan y byddai ymgeiswyr yn debygol o weithio gyda CCGC ar geisiadau grant yn y dyfodol.

Er mwyn sicrhau cymeradwyaeth amserol prosiectau ychwanegol, ystyriwyd y rhain fesul achos gan y panel a oedd yn adolygu ac yn rhoi sylwadau drwy e-bost. Yn ogystal, roedd CCGC wedi dirprwyo awdurdod i roi cymeradwyaethau hyd at £2,499 ar gyfer ceisiadau micro-grantiau.

Roedd un nodwedd o reolaeth CCGC o'r broses ymgeisio yn sefyll allan: natur gydgysylltiedig ceisiadau i CCGC i leihau biwrocratiaeth i ymgeiswyr. Roedd CCGC yn rheoli nifer o gronfeydd ar ran cyllidwyr, yn amrywio o UKSPF i wahanol gronfeydd ffermydd gwynt. O ganlyniad, roedd CCGC mewn sefyllfa dda i nodi lefelau ceisiadau i bob cronfa ac annog ceisiadau i'r gronfa yr oedd prosiectau â'r cyfle gorau i gael cefnogaeth ar eu cyfer. Thema a gododd dro ar ôl tro ymhlith ymgeiswyr oedd sut y gordanysgrifiwyd i Gronfa Gwynt y-Môr (GYM) yng nghanol 2025, felly cynghorwyd ymgeiswyr i feddwl am y Gronfa Allweddol yn hytrach na Chronfa GYM. Nododd un ymgeisydd fod ei gais i GYM wedi'i ddargyfeirio'n llwyddiannus i'r Gronfa Allweddol gan dîm CCGC heb fod angen ailysgrifennu'r cais. Fel y nodwyd yn 3.2, ychwanegwyd cais am gyllid o dan GYM at gynnig Cronfa Allweddol ymgeisydd arall i GYM yn ystod y drafodaeth panel.

> *"Fe wnaethon ni lenwi ffurflen gais Gwynt-y-Môr yn wreiddiol, yna siarad â [aelod o dîm CCGC] a chanfod ei bod hi'n cau am y flwyddyn, wedi'i dyrannu'n llawn. […] Roedd [aelod o dîm CCGC] yn barod iawn ei gymorth. Derbyniodd ein cynnig [Cronfa Allweddol] ar dempled Gwynt-y-Môr."*
> Ymgeisydd am gyllid

Gwerthfawrogwyd yn fawr y dull 'cydgysylltiedig' hwn, yn hytrach na gweithredu cronfeydd o fewn seilos, gan ymgeiswyr.

### 3.3 Rheoli grantiau'r Gronfa Allweddol

Roedd CCGC wedi datblygu ei brosesau yn ystod blynyddoedd blaenorol y Gronfa Allweddol. Roedd yn gymharol ysgafn o ran cyffyrddiad, gan ganiatáu lle i sefydliadau gyflawni, ond roeddent ar gael i ateb unrhyw gwestiynau. Lle nododd sefydliadau

buddiolwyr fod ganddynt gwestiynau, gwnaethant nodi bod Rheolwr y Prosiect Adeiladu Gallu wedi ymateb yn amserol, gyda chyngor cefnogol.

Roedd cynrychiolwyr sefydliadau yn gyson o'r farn bod ffurflenni monitro a phrawf o wariant a oedd yn ofynnol gan dîm CCGC yn "*syml*" ac yn unol â'u disgwyliadau ar gyfer grant o'r maint a dderbyniwyd. Lle'r oedd angen cefnogaeth, roedd tîm CCGC yn barod ei gymorth.

> *"Rydw i'n meddwl ei bod hi'n deg beth maen nhw'n gofyn amdano. […] Mae gen i gannoedd [o dderbynebau] ac yn hytrach na cheisio, mewn rhyw ffordd, eu huwchlwytho'n electronig, rwy'n mynd i mewn yfory ac yn cyfarfod â [thîm CCGC] a byddaf yn mynd trwy'r cyfan gyda nhw. Unwaith eto, unrhyw fath o anawsterau a allai godi wrth geisio cyflwyno'r holl dderbynebau, maen nhw'n hapus iawn i ddod o hyd i ffordd i wneud iddo weithio."*
> Buddiolwr grant

Nododd y Rheolwr Prosiect Adeiladu Gallu fod y rhan fwyaf o sefydliadau wedi darparu eu hadroddiadau monitro diwedd prosiect ar amser. Er bod angen dilyn i fyny ar rai i gael eglurhad o'r dystiolaeth, roedd y rhan fwyaf yn glir ynglŷn â'u cyflawniadau.

Rhoddodd adolygiad o'r adroddiadau monitro terfynol drosolwg defnyddiol o amrywiaeth y prosiectau a gefnogwyd, gyda rhai yn cynnwys ffotograffau i ddangos y gweithgareddau a gynhaliwyd.

***Ffigur 3.2 – Enghraifft o lun o weithgareddau a gefnogwyd gan y Gronfa Allweddol***

Ffynhonnell: Atgynhyrchwyd o'r adroddiad monitro terfynol a gynhyrchwyd gan Amgueddfa Syr Henry Jones






Er bod y poster a oedd yn hysbysebu'r gweithgaredd yn ffigur 3.2 yn cynnwys cydnabyddiaeth o gefnogaeth Llywodraeth y DU, cymhwyswyd cydnabyddiaeth o'r fath yn anghyson ar draws yr ystod o adroddiadau monitro a hyrwyddo ar-lein a

samplwyd o blith sefydliadau buddiolwyr. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o fuddiolwyr yn gallu enwi UKSPF fel cyllidwr terfynol eu prosiect.

> *“Llywodraeth y DU [yw’r cyllidwr]. Rwy’n gwybod hynny gan ei fod ar bob ffurflen ac yn cael ei ddefnyddio ar ddeunydd hyrwyddo.”*
> Buddiolwr grant

Roedd hyn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth gyson o gefnogaeth Llywodraeth y DU gan CCGC yn ei weithgareddau hyrwyddo ac ar bob dogfen a gynhyrchwyd gan y prosiect.

Nododd Rheolwr y Prosiect Adeiladu Gallu fod gan fwy o sefydliadau danwariant cychwynnol nag ym mlynyddoedd blaenorol y Gronfa Allweddol. Priodolwyd hyn i’r amserlen fer a oedd ar gael ar gyfer cyflawni’r prosiectau, ynghyd â sefydliadau’n caffael nwyddau / gwasanaethau gwerth gwell nag a ragwelwyd yn yr amcangyfrifon cyllidebol. Fel y trafodir yn ddiweddarach, canfu sefydliadau fod CCGC yn hyblyg wrth ailddyrannu cyllidebau i gael y gwerth mwyaf o’r grantiau, gan sicrhau bod gwariant yn parhau i gyflawni’r canlyniadau a fwriadwyd.

# 4. Prosiectau a gefnogwyd gan Gronfa Allweddol Adeiladu Gallu CCGC

**4.Cyflwyniad**

Mae Tabl 4.1 yn crynhoi graddfa'r cymeradwyaethau Cronfa Allweddol erbyn diwedd y prosiect[4].

**Tabl 4.1 – Crynodeb o gymeradwyaethau prosiectau**

| | Micro-grantiau (£500 i £2,499) | Prif grantiau (£2,500 i £25,000) | Cyfanswm y grantiau |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm nifer y prosiectau a gymeradwywyd** | 12 | 30 | 42 |
| **Cyfanswm gwerth y prosiectau a gymeradwywyd** | £14,327.61 | £397,762.49 | £412,090.10 |
| **Cyfartaledd gwerth y prosiectau a gymeradwywyd** | £1,193.97 | £13,258.75 | £9,811.67 |

Roedd prosiectau'n cyd-fynd â'r naill neu'r ddwy is-thema UKSPF, SO1: Iach ac SO3: Cynhwysol. Mae Tabl 4.2 yn crynhoi dadansoddiad o brosiectau yn ôl prif is-thema.

***Tabl 4.2 – Aliniad prosiectau a gefnogwyd ag is-themâu UKSPF***

Ffynhonnell: Gwybodaeth monitro CCGC

| Is-thema UKSPF | Nifer y prosiectau a gefnogwyd |
|---|---|
| S01. Iach: Gwella iechyd a lles | 23 |
| S03. Cynhwysol: Dod â chymunedau ynghyd, mynd i'r afael â digartrefedd | 19 |

Mae Atodiad C yn rhoi trosolwg o'r prosiectau a gefnogwyd drwy'r Gronfa Allweddol. Er bod natur y prosiectau a'r mathau o sefydliadau a gefnogwyd yn amrywio, roedd hi'n bosibl dosbarthu prosiectau i rai themâu cyffredinol:

- Micro-brosiectau (llai na £2,500 mewn gwerth) neu brosiectau byr – weithiau digwyddiad neu weithgaredd sy'n para am ddiwrnod yn unig

[4] Er bod gwerth gwreiddiol y Gronfa Allweddol wedi'i gyllidebu ar £400,000, nododd CCGC £12,000 pellach yn gynnar yn y prosiect i'w ailddyrannu i'r Gronfa Allweddol o'r gyllideb a ddyrannwyd yn wreiddiol i CCGC ar gyfer rheoli / costau cyffredinol.

- Prosiectau refeniw sy'n ymestyn drwy gydol yr amserlen sydd ar gael – weithiau'n mynd i'r afael â mater sydd â chyfyngiad amser
- Prosiectau sydd angen buddsoddiad ymlaen llaw. Weithiau byddai hyn yn rhyddhau gwaddol parhaus. Weithiau byddai'n gyfraniad at gam dichonoldeb a fyddai'n datgloi buddsoddiad mwy sylweddol ac o bosibl yn rhoi gwaddol cryf.

Defnyddir setiau o dair astudiaeth achos i ddangos pob un o'r tair thema ac amrywiaeth y prosiectau a gefnogwyd o fewn pob thema.

**4.2 Micro-brosiectau neu brosiectau byr**

Roedd y prosiectau hyn yn amrywio o deithiau undydd ar gyfer grwpiau o bensiynwyr i ddigwyddiadau ar gyfer cymunedau cyfan. Roedd y buddion nodweddiadol a adroddwyd yn cynnwys:

- Llai o ynysu cymdeithasol, gan gyfrannu at well llesiant
- Cadw gwirfoddolwyr, trwy gydnabod ymdrechion gwirfoddolwyr, weithiau trwy wahoddiad ar daith undydd neu ar gyfer pryd o fwyd ysgafn
- Adeiladu cymuned, weithiau trwy ddod â phobl o wahanol oedrannau ynghyd

Mae astudiaeth achos 4.1 yn dangos elfennau lleihau ynysu cymdeithasol ac adeiladu cymunedau am gyfraniad grant cymharol fach.

***Astudiaeth achos 4.1 – Prydau rhwng cenedlaethau ym Metws-y-coed***

Amlinellodd cynrychiolydd o Gyngor Cymuned Betws-y-coed sut yr ymunodd aelodau wedi ymddeol o'r gymuned â'r plant yn yr ysgol leol i gael cinio bob mis.

**Haf Jones, Clerc Cyngor Cymuned Betws-y-coed**
Ffynhonnell: 20 Degrees a Break Every Chain Productions
Is-deitlau Saesneg - https://youtu.be/36749hKkyro
Is-deitlau Cymraeg - https://youtu.be/cRuWF4ofiSA
Amser rhedeg: 1 munud 41 eiliad

**Buddion i'r sefydliad**

Newidiodd y canfyddiad o'r Cyngor Cymuned o fod yn gyfarfod o gynghorwyr cymuned i fod yn alluogwr prosiectau sy'n diwallu anghenion y gymuned.

**Buddion i'r gymuned**
Mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol drwy ddod ag aelodau hŷn y gymuned ynghyd dros bryd o fwyd. Mae aelodau ifanc a hŷn y gymuned yn dod i adnabod ei gilydd yn well, gan hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

**Effaith ar wirfoddoli**
Mae gwirfoddolwyr newydd o'r gymuned wedi ymgysylltu â'r prosiect i wahodd aelodau o'r gymuned sydd wedi ymddeol i bob cinio.

Mae'r astudiaeth achos nesaf yn dangos cefnogaeth i ddigwyddiad undydd wedi'i anelu at ystod eang o bobl o gymuned benodol yng Nghonwy.

***Astudiaeth achos 4.2 – Diwallu anghenion cymuned***
Mewn arolwg Cyngor Tref amlygodd trigolion Llanrwst awydd am fwy o ddigwyddiadau cymunedol. Cefnogodd y Gronfa Allweddol drydedd flwyddyn *Gŵyl Dafydd ap Siencyn*, gan ddathlu cymeriad lleol tebyg i Twm Sion Cati. Caniataodd hyn i'r ŵyl fod yn fwy na'r blynyddoedd blaenorol.

Roedd y rhaglen yn cynnwys:

- Arddangosfa a gwobrau celf a llenyddiaeth
- Cerddoriaeth fyw
- Hela'r Rebel
- Gweithgareddau gyda Dwylo Bach
- Adroddwr storïau
- Gefail ganoloesol
- Sesiynau celf y goedwig
- Arddangosfa adar ysglyfaethus
- Gwisg ffansi canoloesol
- Cuddfan synhwyraidd
- Gemau ffair traddodiadol
- Chwedl Dafydd ap Siencyn (Sgwrs)
- Stondinau marchnad (masnachwyr lleol)
- Mochyn rhost
- Gwersi saethyddiaeth
- Marchogion canoloesol
- Gweithgareddau a chrefftau coedwig
- Cwrdd ag anifeiliaid
- Acrobateg
- Paentio wynebau
- Castell neidio
- Therapi tylino

***Ffigur 4.1 – Detholiad o luniau o Ŵyl Dafydd ap Siencyn 2025***

Ffynhonnell: https://www.cyngorllanrwst.cymru/en/dafydd-ap-siencyn-festival. Cyrchwyd 16 Chwefror 2026



Nododd cynrychiolydd o'r Cyngor Tref fod cefnogaeth y Gronfa Allweddol: *"…wedi gwneud y digwyddiad yn llawer mwy diddorol, amrywiol ac addysgiadol. Caniataodd i allu ariannu adroddwr storïau, crefftwr coed, dawnswyr, dau fand, grŵp o'r enw Animal Encounters, a ddaeth ag anifeiliaid anarferol, ac addysgodd blant ac oedolion am newid yn yr hinsawdd a cholli rhywogaethau."*

Hefyd, *"fe wnaeth y gymuned ehangach elwa'n fawr o natur hwyliog ac amrywiol y digwyddiadau ar y diwrnod. Roedd y ffaith bod hwn yn ddigwyddiad am ddim yn golygu bod cynhwysiant cymdeithasol yn amlwg. Roedd y digwyddiad hefyd yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn yr ardal - gyda'r plant yn cystadlu mewn cystadlaethau a defnydd o'r iaith ar y dydd yn dangos yn glir bod y Gymraeg yn fyw."*

Wrth wneud sylwadau ar elfen gwirfoddoli'r diwrnod, meddai cynrychiolydd o'r Cyngor Tref, *"Cymerodd tua dwsin o wirfoddolwyr ran, […] digon i fod o gymorth mawr. Efallai y byddant yn helpu'r cyngor a'r gymuned yn y dyfodol gyda digwyddiadau o'r fath. Roedd pawb ohonynt fel petaent wedi mwynhau cymryd rhan a helpu ar y diwrnod."*

**Buddion i'r sefydliad**

Galluogodd y trefnwyr i ehangu ystod y gweithgareddau yn yr Ŵyl, ac felly ehangu'r apêl. Amcangyfrifwyd bod tua 250 o bobl wedi mynychu, gyda'r niferoedd yn ôl y sôn wedi lleihau yn y prynhawn oherwydd y glaw.

**Buddion i'r gymuned**
Hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol trwy ddathlu llên gwerin a phrofiadau a rennir. Cyfleoedd gwerth ychwanegol i fasnachwyr lleol.

**Effaith ar wirfoddoli**
Denwyd gwirfoddolwyr newydd, gyda photensial i ymgysylltu â'r gwirfoddolwyr hyn ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

Mae'r astudiaeth achos olaf yn yr adran hon yn canolbwyntio ar daith undydd i aelodau hŷn cymuned, rhywbeth a atgynhyrchwyd mewn rhai prosiectau eraill a gefnogwyd gan y gronfa.

***Astudiaeth achos 4.3 – Taith undydd ar gyfer Clwb yr Heulwen***
Clwb cymdeithasol i bobl oed pensiwn yn Llansannan oedd Clwb yr Heulwen[5]. Roeddent yn cyfarfod yn fisol rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd. Cynhaliwyd taith flynyddol yr oedd y trysorydd yn ceisio cyllid ar ei chyfer bob blwyddyn er mwyn sicrhau nad oedd neb yn cael ei eithrio ar sail fforddiadwyedd.

Roedd taith 2025, a gefnogwyd gan y Gronfa Allweddol, i Tacla Taid (Amgueddfa Trafnidiaeth Ynys Môn), gan aros am bryd o fwyd mewn Canolfan Arddio ar y ffordd adref.

[5] Adroddwyd mai Llansannan oedd y pentref mwyaf anghysbell yng Ngogledd Cymru gan y Daily Post https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/most-isolated-village-north-wales-25760557. Mae wedi'i leoli naw milltir o Abergele a Dinbych.

***Ffigur 4.2 – Ar y ffordd i Ynys Môn***
Ffynhonnell:
http://www.llansannan.org/item/taith_flynyddol_clwb_yr_heulwen_2025_annual_clwb_yr_heulwen_s_outing.html. Cyrchwyd 16 Chwefror 2026



Roedd adroddiad o'r daith ar gael ar wefan Cyngor Cymuned Llansannan[6].

Awgrymodd y Trysorydd, *"Roedd pawb yn amlwg wedi mwynhau'r ffaith eu bod yn eistedd ymhlith ffrindiau, yn gallu sgwrsio drwy'r amser, yn cymdeithasu. Nid oedd llawer wedi bod i'r safle penodol hwnnw ar Ynys Môn o'r blaen. Roedden nhw wedi'u plesio'n fawr. Nid oedd rhai mor falch. Ond dyna yw bywyd. Ac yna i orffen gyda'r ganolfan arddio, rhoddodd gyfle iddynt gael edrych o gwmpas ac eistedd eto a chael pryd o ryw fath, boed yn un sylweddol neu'n fyrbryd, yn ôl eu dewis. Fe gawson nhw ddiwrnod allan da iawn. Roedden nhw'n gadael y pentref am 10 y bore ac yn ôl am hanner awr wedi chwech. Felly, roedd yn ddiwrnod llawn."*

**Buddion i'r sefydliad**
Caniataodd i'r clwb gynnig taith diwrnod llawn a sicrhau nad oedd neb yn cael ei eithrio. Hefyd, roedd cyfle i gynnig lleoedd i wirfoddolwyr a helpu i gadw gwirfoddolwyr.

[6] Cyngor Cymuned Llansannan (2025) Taith Flynyddol Clwb yr Heulwenr 2025. A gael yn http://www.llansannan.org/item/taith_flynyddol_clwb_yr_heulwen_2025_annual_clwb_yr_heulwen_s_outing.html. Cyrchwyd 16 Chwefror 2026

**Buddion i'r gymuned**
Taith undydd gymdeithasol i bensiynwyr, a neb yn cael ei eithrio ar sail fforddiadwyedd.

**Effaith ar wirfoddoli**
Roedd gan y clwb hanner dwsin o wirfoddolwyr (heb fod o oedran pensiwn) a oedd wedi cefnogi'r clwb drwy gydol y flwyddyn trwy osod byrddau a chadeiriau, gwneud te a brechdanau, a gweini pobl. Gwahoddwyd hwythau hefyd i ymuno ar y daith. "Gair bach o ddiolch yw hynny."

### 4.3 Prosiectau refeniw yn ymestyn dros sawl mis

Roedd y categori hwn o brosiectau yn amrywiol. Roeddent yn amrywio o brosiectau i gyflymu cynlluniau i wneud gwahaniaeth i gymunedau, i fynd i'r afael â materion brys i waith dichonoldeb neu brosiectau peilot i brofi syniad.

Mae'r astudiaeth achos cyntaf yn yr adran hon yn edrych ar sut y gwnaed canolfan gymunedol yn fwy cynaliadwy trwy ddarparu'r gallu i ddadansoddi ei chostau rhedeg a bod o gwmpas i wella'r profiad i ddefnyddwyr y cyfleuster. Cafodd hyn effaith ddilynol o ran datblygu ysbryd cymunedol.

***Astudiaeth achos 4.4 – Neuadd Gymunedol Llanfairfechan***
Ystyriodd Swyddog Datblygu Prosiectau Neuadd Gymunedol Llanfairfechan y gwaith a alluogwyd gan gefnogaeth y Gronfa Allweddol, a'r gwahaniaeth a wnaeth i'r sefydliad, y gymuned a gwirfoddoli.

**Chris Potter, Swyddog Datblygu Prosiect, Neuadd Gymunedol Llanfairfechan**
Ffynhonnell: 20 Degrees a Break Every Chain Productions
Is-deitlau Saesneg - https://youtu.be/N0DvPAA14-0
Amser rhedeg: 4 munud 25 eiliad

**Buddion i'r sefydliad**
Cefnogodd y Gronfa Allweddol gostau cyflog y Swyddog Datblygu Prosiect, gan alluogi digon o gapasiti i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydledig oedd yn wynebu'r neuadd a chofleidio cyfleoedd. O ganlyniad, cynyddodd y defnydd o'r neuadd gan tua 100%, gyda refeniw yn cynyddu'n debyg. Cynhaliwyd rhaglen lleihau costau ochr yn ochr. Cyflwynwyd goleuadau a gwresogi effeithlon o ran ynni. Er bod y cynlluniau hyn i leihau allyriadau carbon a gwella cynaliadwyedd eisoes ar waith, cyflymwyd eu gweithrediad gan y gallu i reoli'r gwaith hwnnw. Aethpwyd i'r afael â phroblemau

draenio hefyd, ac ail-agorwyd y sinema ar y safle 60 mlynedd ar ôl ei chau. Yn ogystal, cyflwynwyd arbedion effeithlonrwydd i system archebu'r neuadd ac arferion cyfrifyddu.

***Ffigur 4.3 – Archebu ar-lein ar gyfer y neuadd gymunedol***

Ffynhonnell: https://hallbookingonline.com/llanfairfechan/, 21 Chwefror 2026




**Buddion i'r gymuned**

Y Neuadd Gymunedol oedd y man cymunedol olaf oedd ar gael i gymuned Llanfairfechan. Roedd cefnogaeth y Gronfa Allweddol yn golygu y gellid cyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau newydd. Denodd y rhain i gyd fwy o bobl o'r gymuned i'r lle a chynorthwyo i feithrin ysbryd cymunedol, fel y dangosir gan y cynnydd mewn gwirfoddoli.

**Effaith ar wirfoddoli**

Cefnogwyd y pwyllgor o 11 aelod trwy ddarparu dadansoddiad o'r hyn oedd angen ei wneud i wella gwahanol agweddau ar y cyfleuster a'i weithrediad. Fodd bynnag, recriwtiwyd 15 o wirfoddolwyr pellach i helpu gyda glanhau, paratoi a chynnal digwyddiadau. Bydd mwy o wirfoddolwyr yn cael eu recriwtio i gefnogi ochr dechnegol digwyddiadau cerddoriaeth a gwaith llafar, nodwedd gynyddol o raglen y ganolfan.

Mae'r astudiaeth achos nesaf yn edrych ar sut y bu cyllid tymor byr yn ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â'r angen dybryd am gefnogaeth i oroeswyr cam-drin domestig.

***Astudiaeth achos 4.5 – Cymorth i oroeswyr cam-drin domestig***

Sefydliad arbenigol ym maes cam-drin domestig oedd DASU (Uned Diogelwch Cam-drin Domestig) a oedd yn cefnogi unrhyw un sy'n profi cam-drin domestig, o blant i oedolion, gan gynnwys pobl oedrannus. Roedd y sefydliad yn derbyn tua 6,500 o atgyfeiriadau'r flwyddyn. Esboniodd cynrychiolydd o'r sefydliad sut y llwyddodd y Gronfa Allweddol i'w helpu:

*"I gynyddu gallu ein gwasanaeth plant a phobl ifanc a'n darpariaeth cwnsela ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig. Fe wnaeth hyn leihau rhestrau aros, ein galluogi i gynnig mwy o sesiynau un-i-un i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig, a darparu mwy o gefnogaeth therapiwtig i oedolion sydd wedi goroesi cam-drin domestig.*

*Nid yw'n teimlo'n iawn i ni gael rhestr aros ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig, ac yn sicr i blant a phobl ifanc. [...] Plant, maen nhw'n mynd i CAMHS[7]. Rydym wedi clywed straeon hunllefus bod yn rhaid i blant aros blwyddyn, dwy flynedd am gefnogaeth. Roeddwn i'n cefnogi teulu yr wythnos diwethaf lle, yn yr ardal benodol yr oeddent yn byw, nid oedd unrhyw gefnogaeth i'r plentyn penodol hwn oherwydd ei bod dan 10 oed. Felly, pe bai hi'n 10 oed gallai fod wedi cael mynediad at wasanaethau, ond oherwydd ei bod hi'n 7 nid oedd yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau. Felly fe wnaethon ni bontio'r bwlch hwnnw."*

Aeth cynrychiolydd y sefydliad ymlaen i rannu stori arall a oedd yn dangos y gwahaniaeth a wnaeth y cyllid ar lefel unigolyn / teulu.

*"Roedd y cleient penodol hwn yn mynd trwy'r llys. Roedd hi'n cael ei chefnogi gan ein tîm IDVA[8]. Felly mae'n risg uchel iawn, mewn sefyllfa beryglus iawn. Ond yna rydych chi'n gwybod beth fydd yr IDVA yn ei wneud, byddant yn cadw'r person hwnnw'n ddiogel. […] Oes angen iddynt symud tŷ? Oes angen mecanweithiau diogelwch o amgylch y tŷ arnynt? Oes angen marcwyr heddlu arnynt? Oes angen iddynt roi rhwymedïau cyfreithiol ar waith megis gwaharddebau a phethau felly? Pan ystyrir ei bod yn ddiogel, bydd yr IDVA yn cyfeirio'r cleient ymlaen at fwy o gefnogaeth yn y gymuned.*

*Oherwydd system y llys, mae'n rhaid i chi weithiau aros am flwyddyn cyn i'ch achos fynd i'r llys. Roedd y cleient hwn wedi bod yn aros am gwnsela ers cryn amser ac wedi cyfeirio ei hun at y meddyg teulu [ond roedd rhestr aros hir am gefnogaeth]. Gyda'r cyllid hwn roedden ni'n gallu ei chefnogi trwy'r broses honno. Os ydych chi'n ystyried mynd i'r llys, rydw i wedi bod i'r llys ac mae'n broses frawychus iawn. Rydych chi'n siarad am rywbeth personol iawn sydd wedi digwydd i chi a'ch plant. Mae'n brofiad eithaf trawmatig lle bydd rhai o'n cleientiaid yn dweud eu bod nhw'n cael eu hail-drawmateiddio mewn ffordd, gan orfod ail-ymweld â'r digwyddiad. Mae'r math hwn o gefnogaeth wedi newid ei bywyd. Dydy hi ddim yn gwybod beth fyddai hi wedi'i wneud pe na bai ein cwnselydd wedi bod yno i'w chefnogi trwy'r broses honno."*

[7] Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
[8] Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol

**Buddion i'r sefydliad**
Cyflawnwyd y targed i gael gwared ar y rhestr aros ar gyfer cwnsela i blant a phobl ifanc yng Nghonwy yn dilyn cam-drin domestig o fewn eu teulu am oes gyfan y cyllid.

> *"Rydyn ni wedi gallu cysylltu â phobl a dweud, 'Iawn, mae gennym gefnogaeth yn barod i chi nawr, does dim rhaid i chi aros mwyach.' Mae'n anhygoel ein bod yn gallu gwneud hynny."*
> Aelod o dîm DASU

**Buddion i'r gymuned**
Cwnsela a chefnogaeth i blant ac oedolion mewn modd amserol. Yn benodol, gallai rhiant a phlentyn fynd trwy gwnsela ar yr un pryd, gan alluogi DASU i ystyried anghenion y teulu ac nid unigolion ar eu pen eu hunain.

**Effaith ar wirfoddoli**
Llwyddodd dau berson i wirfoddoli mewn grŵp plant a phobl ifanc.

Mae'r astudiaeth achos olaf yn yr adran hon yn edrych ar sut y gwnaeth cefnogaeth y Gronfa Allweddol alluogi prosiect peilot o ddull newydd ar gyfer gwirfoddoli.

***Astudiaeth achos 4.6 – Gofal a Rhannu Aberconwy***
Cefnogodd y sefydliad bobl oedd angen bwyd. Daeth gwirfoddolwyr i adnabod teuluoedd penodol ac aethant ar deithiau siopa, gan deilwra'r hyn a brynwyd i anghenion y teulu oedd yn cael ei gefnogi. Roedd y sefydliad yn cael ei redeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, gyda thua 28 yn weithredol ar ddiwedd 2025.

Pwrpas y prosiect peilot oedd darganfod a oedd unrhyw un o fuddiolwyr y sefydliad yn teimlo eu bod yn gallu gwirfoddoli i'r sefydliad. Daeth pedwar o bobl ymlaen. Daeth yn amlwg mai un o'r cymhellion dros eu hymgysylltiad oedd gweithio yn eu cymunedau eu hunain, gan gael eu gweld fel pobl a oedd yn cefnogi'r gymuned, nid dim ond fel pobl oedd angen cefnogaeth.

*__Ffigur 4.4 – Cyhoeddiad cefnogaeth y Gronfa Allweddol__*

Ffynhonnell: [https://www.facebook.com/people/Aberconwy-Care-and-Share-Charity/61576979481830/](https://www.facebook.com/people/Aberconwy-Care-and-Share-Charity/61576979481830/), 21 Gorffennaf 2025




Roedd angen i'r sefydliad addasu sut y byddai siopa'n digwydd gyda'r gwirfoddolwyr hyn. Er bod gwirfoddolwyr traddodiadol yn tueddu i dalu am nwyddau bwyd ar gerdyn credyd a hawlio'r costau yn ôl trwy gyflwyno derbynebau, gallai sefyllfa ariannol gwirfoddolwyr sy'n fuddiolwyr fod yn fwy ansicr, felly darparwyd talebau siopa, gyda gwariant eto'n cael ei gefnogi trwy gyflwyno derbynebau.

*"Mae wedi bod yn fuddiol gweld sut y gallai peth o'r fath weithio'n ymarferol yn y dyfodol. Ac rwy'n credu y bydd hefyd yn fuddiol pan nad yw'n brosiect mwyach a […] gall ein gwirfoddolwyr sy'n dderbynwyr, gobeithio, weithio ochr yn ochr â'r gwirfoddolwyr eraill, gan ddod i ganol y cyfarfodydd ac efallai roi rhywfaint o fewnwelediad i sut beth yw byw ar yr ymyl mewn gwirionedd ac yn derbyn gennym ni. […] Felly, rwy'n credu bod ganddyn nhw lawer i'w gynnig i'r sefydliad."*
Aelod o'r tîm Gofal a Rhannu

**Buddion i'r sefydliad**
Gallu ychwanegol oherwydd pedwar gwirfoddolwr newydd. Y potensial am fwy o fewnwelediad i safbwynt y derbynnydd gan wella ffordd y sefydliad o weithredu.

**Buddion i'r gymuned**
Teimlai'r rhai a wirfoddolodd eu bod yn 'rhoi yn ôl' i'w cymunedau, gan wella eu hunan-barch. Roedd mwy o bobl yn gallu cael eu cefnogi gan y sefydliadau oherwydd gwell capasiti gwirfoddolwyr.

**Effaith ar wirfoddoli**
Recriwtiwyd pedwar gwirfoddolwr newydd.

### 4.4 Prosiectau buddsoddi

Roedd rhai prosiectau buddsoddi yn elfennau cam dichonoldeb prosiectau mwy. Cyflawnodd prosiectau buddsoddi eraill fuddion hirdymor o fuddsoddiad untro. Yn nodweddiadol, nid oedd ymgeiswyr yn gallu nodi ble arall y gallent fod wedi sicrhau cyllid ar gyfer camau dichonoldeb, ond roedd gwaddol sylweddol yn bosibl pe bai modd dod o hyd i gyllid ar gyfer yr elfennau cynharach hyn. Mae astudiaeth achos 4.7 yn rhoi enghraifft yn ymwneud â Chlwb Rygbi Nant Conwy.

***Astudiaeth achos 4.7 – Buddsoddi yn y cam dichonoldeb yn datgloi buddion hirdymor***


Cynyddodd costau trydan Clwb Rygbi Nant Conwy i £20,000 y flwyddyn pan gododd prisiau ynni yn sgil ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Cynorthwyodd hyn i ganolbwyntio'r meddwl o fewn y clwb ar yr agenda Sero Net gan fod costau ynni o'r fath yn anghynaliadwy. Ffurfiwyd pwyllgor Sero Net, gan arwain at fentrau megis gosod paneli solar a mwy o ddefnydd o oleuadau LED.

Eu menter bresennol oedd datblygu cynllun trydan dŵr 44kW. Er ei fod yn allbwn cymharol fach, byddai'n pweru'r clwb ac yn galluogi i werthu trydan dros ben trwy'r Grid. Galluogodd cefnogaeth y Gronfa Allweddol i gwblhau manyleb a chostau'r prosiect, cysylltu â chyrff statudol i sicrhau trwyddedau a chaniatadau cynllunio, a nodi'r gofynion seilwaith trydanol o fewn y clwb.

*"Mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr oherwydd ni fyddem wedi gallu cyrraedd y pwynt hwn heb y cyllid. […] Nid oes gan gyllidwyr awydd fel arfer i ariannu elfennau datblygu [prosiectau cyfalaf fel hyn]. Unwaith i chi gael caniatâd cynllunio, y cydsyniad a phopeth arall, nid yw ceisio cael mynediad at gyllid mor anodd â hynny. Felly mewn ffordd, mae elfen o risg yn y cam yr ydym ynddo nawr ac mae CCGC wedi ein cefnogi ar hyd y ffordd ac wedi ein galluogi i gyrraedd y man hwn. Ni fyddem wedi gwneud hynny heb eu cefnogaeth. Dydw i ddim yn siŵr o ble fyddai'r cyllid hwn wedi dod pe na fyddem wedi'i gael gan CCGC."*

Aelod o Bwyllgor Sero Net Clwb Rygbi Nant Conwy

**Ffigur 4.5 – Hysbysiad caffael ar GwerthwchiGymru**
Ffynhonnell: GwerthwchiGymru, 5 Tachwedd 2025




**Buddion i'r sefydliad**
Bydd y prosiect yn gwneud y clwb yn fwy cynaliadwy, yn ariannol ac o safbwynt sero net. Gwnaeth cefnogaeth y Gronfa Allweddol *"sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni".*

**Buddion i'r gymuned**
Roedd Clwb Rygbi Nant Conwy yn fawr, gyda 10 tîm iau, tîm ieuenctid, 3 thîm dynion a thîm menywod. Cyffyrddodd hyn â llawer o bobl yn y gymuned. Fodd bynnag, cyrhaeddodd y clwb fwy o bobl na'r rheini a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rygbi. Cynigiodd y clwb safle a ddefnyddiwyd gan genedlaethau hŷn i gymdeithasu a defnyddiodd yr Urdd a'r ysgol leol y cyfleuster hefyd.

**Effaith ar wirfoddoli**
Mae gan y clwb sylfaen wirfoddolwyr fawr o tua 100 o wirfoddolwyr rheolaidd, wedi'u hategu gan 100 o wirfoddolwyr pellach ar sail *ad hoc*. Byddai gwneud y clwb yn fwy cynaliadwy yn cefnogi'r gwirfoddoli hwn i barhau i'r dyfodol. Galluogodd y prosiect i nifer fach o wirfoddolwyr newydd gael eu recriwtio. Roedd gan y Pwyllgor Sero Net 10 aelod, a daethpwyd â rhai ohonynt i mewn er mwyn elwa gan eu harbenigedd penodol mewn meysydd yn amrywio o systemau trydan i gyngor ar dreth.

Fodd bynnag, nid oedd pob prosiect buddsoddi yn elfennau o brosiectau mwy. Mae astudiaeth achos 4.8 yn dangos sut y gallai buddsoddiad cymharol fach arwain at fuddion sylweddol yn y dyfodol rhagweladwy, gydag effeithiau lluosogydd gwerth ychwanegol i fusnesau yn yr ardal. Fel menter a gynhelir gan wirfoddolwyr heb

unrhyw gostau parhaus, bydd y buddion yn parhau i gronni am y dyfodol rhagweladwy.

**Astudiaeth achos 4.8 – Buddion iechyd ac economaidd parhaus o fuddsoddiad cymedrol**


Nododd grŵp bach o weithwyr iechyd proffesiynol y buddion ar gyfer iechyd a lles a ddaeth yn sgil mudiad Parkrun a phenderfynodd geisio dod â'r buddion hyn i Landrillo-yn-Rhos.

Mae angen £4,000 er mwyn sefydlu Parkrun ond nid yw Parkrun UK yn caniatáu i leoliadau newydd gael y cyllid hwn o ffynonellau torfol oherwydd y problemau o ddychwelyd nifer fawr o roddion bach i ymdrechion ariannu torfol aflwyddiannus. Yn ogystal, ni fyddai Parkrun UK yn cefnogi cais i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar gyfer sefydlu grŵp lleol, gan ffafrio cadw'r opsiwn hwnnw ar gyfer prosiectau ar raddfa genedlaethol. O ganlyniad, cwblhaodd tîm Llandrillo-yn-Rhos gais i Gronfa Gwynt-y-Môr, dim ond i gael gwybod bod y gronfa wedi'i gordanysgrifio ac wedi cau am y flwyddyn. Yna cyhoeddwyd y Gronfa Allweddol.

*Roedd [Rheolwr Prosiect y Gronfa Allweddol] yn barod iawn ei gymorth. Derbyniodd ein cynnig ar dempled Gwynt-y-Môr. Roedd problem gyda TAW pan gymeradwywyd y grant ond cyfarfu â Parkrun i sicrhau'r elusen y gallent hawlio'r TAW yn ôl."*
Cynrychiolydd Parkrun y Promenâd, Llandrillo-yn-Rhos

**Buddion i’r sefydliad**
Sefydlwyd Parkrun y Promenâd, Llandrillo-yn-Rhos. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 29 Tachwedd 2025, gan ddenu 501 o gyfranogwyr ar gyfer y digwyddiad lansio.

***Ffigur 4.6 – Maint y presenoldeb***
Credyd: donhaleblog@blogspot.com rhannwyd yn https://www.facebook.com/Ypromenadparkrunllandrilloynrhos/, 2 Rhagfyr 2025




**Buddion i’r gymuned**
Denodd yr wyth digwyddiad a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod monitro gyfartaledd presenoldeb o 477, er bod rhediad ar Ddydd Nadolig wedi denu 620. Awgrymodd niferoedd mor fawr o redwyr fuddion iechyd sylweddol posibl trwy gymryd rhan mewn gweithgaredd ymarfer corff rheolaidd. Y dyhead gwreiddiol ar gyfer y Parkrun hwn oedd 200 o gyfranogwyr fesul digwyddiad.

Budd annisgwyl i’r gymuned oedd yr effaith ar yr economi leol. Roedd y Parkrun yn dechrau am 9.00am ar foreau Sadwrn, felly roedd y rhan fwyaf o redwyr wedi gorffen erbyn 9.30-9.45am. Yna aeth llawer draw i gaffis lleol, i’r graddau bod pob un o’r saith caffi o amgylch yr harbwr yn tueddu i fod yn llawn am awr. Awgrymodd cynrychiolydd o Parkrun y Promenâd fod caffis yn y pentref fel arfer yn dawel tan o leiaf 10.30am, hyd yn oed yn yr haf, felly croesawyd y fasnach ychwanegol gan y gymuned fusnes leol. Yn ogystal, roedd y cyfarfodydd hyn ar ôl y rhediad yn cynnig cyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol, a fyddai’n debygol o arwain at fuddion ychwanegol o ran adeiladu cymuned a lles.

**Effaith ar wirfoddoli**
Arweiniodd yr wyth Parkrun a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod monitro at 215 o achosion o wirfoddoli gan 113 o bobl.

Arweiniodd buddsoddiad arall oedd yn gysylltiedig ag astudiaeth achos 4.9 at wahanol fuddion, ac unwaith eto dangosodd sut y gallai buddsoddiad cymharol gymedrol wneud gwahaniaeth parhaus i bobl.

***Astudiaeth achos 4.9 – Cyrraedd ar draws ardal Bayside***
Amlinellodd cynrychiolydd o Radio Bayside sut y gwnaeth buddsoddiad mewn offer newydd wella mynediad a chodi proffil gweithgareddau trydydd sector ar draws ardal Bayside yng Ngogledd Cymru.

**Simon Wynne, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Radio a Chyfryngau Cymuned yr Arfordir (Radio Bayside)**
Ffynhonnell: 20 Degrees a Break Every Chain Productions
Is-deitlau Saesneg - https://youtu.be/cyDKggjsC94
Is-deitlau Cymraeg - https://youtu.be/f3jH_Y18HtE
Amser rhedeg: 2 funud 15 eiliad

**Buddion i'r sefydliad**
Roedd cyflwyno offer newydd wedi galluogi i raglenni byw gael eu darlledu am y tro cyntaf. Galluogodd hyn i raglenni brecwast a thaith wedi gwaith byw, newyddion byw ac adroddiadau traffig gael eu darlledu a hefyd gellid darlledu oddi ar y safle.

**Buddion i'r gymuned**
Cyflwynwyd mwy o ddeunydd a oedd yn cynnwys sefydliadau trydydd sector yr ardal, gan roi llwyfan iddynt hyrwyddo eu gweithgareddau. Galluogodd hyn Radio Bayside i gyflwyno rhaglenni byw o ddigwyddiadau trydydd sector am y tro cyntaf.

**Effaith ar wirfoddoli**
Roedd gwirfoddolwyr yn yr orsaf oedd â phroblemau mynediad yn gallu cyfrannu at raglenni o bell o'u cartrefi, gan agor eu gallu i ymgysylltu. Hefyd, fe wnaeth dechrau darllediadau byw gynyddu'r angen am wirfoddolwyr, gan ehangu nifer y cyfleoedd gwirfoddoli.

## 4.5 Themâu ar draws yr ystod o brosiectau a gefnogwyd

Amlygwyd rhai themâu allweddol gan gynrychiolwyr sefydliadau buddiolwyr y Gronfa Allweddol:

- Galluogodd grantiau'r Gronfa Allweddol i gyflawni neu ychwanegu gwerth at brosiectau. Roedd cyllid naill ai'n hanfodol i gyflawni digwyddiad neu weithgaredd neu'n gwella graddfa neu ansawdd y ddarpariaeth am gyfnod cyfyngedig o amser.
- Roedd thema gref o gydlyniant a chynhwysiant cymunedol. Galluogodd cefnogaeth y Gronfa Allweddol gyfranogiad am ddim mewn digwyddiadau, gan leihau rhwystrau i ymgysylltu. Roedd hyn yn amrywio o gyfranogiad rhwng cenedlaethau i ddathliadau o hunaniaeth leol.
- Roedd thema gref hefyd o iechyd a lles i gymunedau yn amrywio o gyn-filwyr i bobl wedi ymddeol, ac o oroeswyr cam-drin i'r rhai sy'n chwilio am amser mewn coetir.
- Roedd thema o sylfaeni gwirfoddolwyr yn cael eu sefydlogi. Roedd gweithgareddau a oedd yn dangos gwerthfawrogiad ac yn cynnig hyfforddiant i wirfoddolwyr, yn cynorthwyo i gadw gwirfoddolwyr. Recriwtiwyd gwirfoddolwyr newydd. Er mai cymedrol oedd y niferoedd ar lawer o brosiectau, roeddent yn ystyrlon yng nghyd-destun grwpiau â gwaelodlin gymharol fach o wirfoddolwyr, a allai helpu i osgoi gorflino.

***Astudiaeth achos 4.10 – Lansiad meddal Siop Hosbis Dewi Sant wedi'i hadnewyddu yn Llandudno***

Credyd: Stuart Brookes Norrie, TV Conwy

https://www.facebook.com/share/v/1AsBVacH9Y/ (2 funud 14 eiliad)

## 5. Adeiladu gallu – anariannol

### 5.1 Cyflwyniad

Er bod y grantiau ariannol a ddarparwyd i sefydliadau trydydd sector yng Nghonwy yn nodwedd arwyddocaol o’r prosiect hwn, darparwyd cefnogaeth anariannol hefyd. Ystyriwyd elfen o’r ddarpariaeth hon yn y cyngor a’r canllawiau a ddarparwyd i ymgeiswyr i’r Gronfa Allweddol, fel yr amlinellwyd yn 3.2. Fodd bynnag, roedd hyn yn tueddu i fod mewn ymateb i ymholiadau a godwyd yn ystod y broses ymgeisio neu’n deillio o adolygiad o bolisïau neu ddogfennau llywodraethu a ddarparwyd gan ymgeiswyr i’r Gronfa Allweddol. Roedd yna hefyd elfennau mwy rhagweithiol i’r cynnig adeiladu gallu anariannol.

### 5.2 Cynhadledd CCGC

Cynhadledd CCGC a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2025 oedd prif fenter adeiladu gallu y prosiect. Roedd yn ddigwyddiad diwrnod llawn a gynhaliwyd yn Venue Cymru yn Llandudno a denodd 221 o fynychwyr[9]. Roedd hyn yn cymharu â 248 a archebodd le[10] ar gyfer y digwyddiad h.y. cyfradd bresenoldeb o 89%[11]. Roedd 33 o stondinau yn rhan o elfen arddangosfa’r gynhadledd.

Dechreuwyd y rhaglen gyda sesiwn lawn a oedd yn cynnwys gair o groeso gan Brif Weithredwr CCGC a daeth i ben gyda’r sesiwn â’r teitl pryfoclyd ‘A ddylai’r trydydd sector fynd ar streic?’. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o’r rhaglen yn cynnwys sesiynau gweithdy a grynhoir yn nhabl 5.1 h.y. gallai cynrychiolwyr ddewis sesiynau i gefnogi eu hanghenion a’u diddordebau datblygu eu hunain.

---

[9] Rhannwyd y mynychwyr yn 166 o gynrychiolwyr a 55 o stondinwyr arddangosfa a darparwyr gwasanaeth

[10] Rhannwyd yr archebion yn 184 o gynrychiolwyr a 64 o stondinwyr arddangosfa a darparwyr gwasanaeth, felly roedd cyfradd presenoldeb y cynrychiolwyr (90%) ychydig yn uwch na chyfradd y stondinwyr (86%)

[11] Mewn ymgais i annog y rhai a oedd yn archebu i ddod i'r digwyddiad am ddim hwn, dywedwyd wrth y cyfranogwyr wrth archebu y byddai costau'r lluniaeth yn cael eu codi arnynt pe na fyddent yn dod heb ganslo ymlaen llaw.

*Tabl 5.1 – Dewisiadau sesiynau i gynrychiolwyr*

| **Sesiwn 1** | **Sesiwn 2** | **Sesiwn 3** |
|---|---|---|
| AI ar gyfer ceisiadau am gyllid | Mwy na grantiau: creu incwm arall | Ymgysylltu busnesau mewn cynlluniau noddi |
| Llunio eich strategaeth gwirfoddoli | AI i arweinwyr | Gweithdy fideo ffôn clyfar |
| Ydych chi'n ystyried sefydlu CIC? | Cymraeg: pam mae'n bwysig? | Lles meddyliol i staff a gwirfoddolwyr |
| Postio â phwrpas: cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y trydydd sector | Egwyddorion costio prosiectau | Bod yn gyfaill: cefnogi'r gymuned LHDT+ |
| Senedd 2026: newidiadau, effaith a maniffestos | Y dull newydd o wirfoddoli | Archwilio dyfodol aelodaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |

Ochr yn ochr â'r sesiynau hyn, yn wir am y rhan fwyaf o'r dydd, cynhaliwyd arddangosfa o sefydliadau perthnasol i'r trydydd sector yng Nghonwy. Roedd y sefydliadau'n amrywio o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i sefydliadau ariannu a sefydliadau sy'n rhedeg prosiectau sy'n recriwtio neu'n cefnogi gwirfoddolwyr. Roedd '*ogof synhwyraidd*' neu ofod lles hefyd ar gael i'w ddefnyddio gan gynrychiolwyr drwy gydol y dydd.

***Ffigur 5.1 - Ogof synhwyraidd yn cyferbynnu â phrysurdeb arddangosfa'r gynhadledd***

Ffynhonnell: https://www.facebook.com/photo/?fbid=1266765512162752&set=pb.100064879440297.-2207520000&locale=en_GB a https://www.facebook.com/photo/?fbid=1272580358247934&set=pb.100064879440297.-2207520000&locale=en_GB cyrchwyd 22 Chwefror 2026





Dosbarthwyd set o adnoddau, a oedd yn cynnwys podlediadau a recordiwyd ar y diwrnod a dolenni i noddwyr a chyllidwyr allweddol, i'r mynychwyr yn dilyn y digwyddiad:

https://padlet.com/josephinehastings/cynhadledd-trydydd-sector-ccgc-CCGC-third-sector-conference--y320bnd8et17ioh9

Mae astudiaeth achos 5.1 yn rhoi syniad o'r diwrnod a barn rhai o'r cyfranogwyr amdano.

***Astudiaeth achos 5.1 – Blas o Gynhadledd CCGC 2025***
Ffynhonnell: 20 Degrees a Break Every Chain Productions
Is-deitlau Saesneg: https://youtu.be/09eeX1sjnSc
Is-deitlau Cymraeg: https://youtu.be/XqB7nVdkfj8
Amser rhedeg: 1 munud 11 eiliad

Roedd yr ymatebion cadarnhaol i'r gynhadledd a bortreadir yn astudiaeth achos 5.1 yn enghraifft o batrwm yr ymatebion cadarnhaol a ddarparwyd i werthuswyr gan gynrychiolwyr a deiliaid stondinau drwy gydol y gynhadledd. Y themâu a gododd dro ar ôl tro oedd:

- Roedd y sesiynau'n ddiddorol ac yn amserol
- Roedd cynnwys y sesiynau yn ymarferol ddefnyddiol i gynrychiolwyr
- Roedd cyfleoedd sylweddol ar gyfer rhwydweithio a dysgu gan gymheiriaid, yn ystod y sesiynau, y cyfnodau lluniaeth ac yn y cyfarfod cymdeithasol trydydd sector olaf ar ddiwedd y dydd.

Gofynnwyd i gynrychiolwyr am adborth ar ôl y digwyddiad trwy arolwg digidol gan dîm CCGC. Crynhoir yr ymatebion yn Atodiad D. Gan mai dim ond 35 o ymatebion a gafwyd (cyfradd ymateb o 16%), ni ellir tybio eu bod yn gynrychioliadol. Serch hynny, roedd cyfradd uchel o orgyffwrdd â'r adborth ansoddol uchod. Rhoddodd 95% o'r ymatebwyr sgôr pedair neu bum seren (allan o bump)[12] i'r gynhadledd a daeth y themâu canlynol i'r amlwg fel y rhai a werthfawrogwyd fwyaf gan gynrychiolwyr[13]:


- Cyfleoedd rhwydweithio a meithrin perthynas
- Sesiynau o ansawdd uchel, amrywiol a pherthnasol
- Presenoldeb cryf gan arddangoswyr / cyllidwyr

Er gwaethaf y farn gadarnhaol iawn hon o'r gynhadledd yn gyffredinol, cynigiodd rhai cynrychiolwyr syniadau ar gyfer gwella yn y blynyddoedd i ddod.

[12] Ymateb i Atodiad D, cwestiwn 1
[13] Ymateb i Atodiad D, cwestiwn 2

Roedd thema gref y byddai ymatebwyr yr arolwg wedi gwerthfawrogi mwy o fanylion am y sesiynau a'u hamseriadau cyn y gynhadledd[14]. Awgrymodd hyn nad oedd rhai cynrychiolwyr wedi derbyn / heb sylwi ar raglen y gynhadledd oedd wedi'i hatodi wrth e-bost a anfonwyd at gynrychiolwyr cyn y gynhadledd. Fodd bynnag, yn yr un modd, byddai cynrychiolwyr wedi gwerthfawrogi rhestr o arddangoswyr cyn mynychu fel y gallent gynllunio eu dull ar gyfer ymdrin ag amrywiol sefydliadau, yn enwedig cyllidwyr. Awgrymiadau eraill o fewn y thema hon oedd dychwelyd at drosolwg un dudalen o sesiynau'r dydd a phosteri o'r trosolwg hwn o amgylch y lleoliad. Mewn gwirionedd, roedd posteri trosolwg o'r fath yn cael eu harddangos o amgylch y lleoliad, er nad oeddent wedi'u hatgynhyrchu mewn pecynnau cynrychiolwyr unigol.

***Ffigur 5.2 – Poster trosolwg o'r gynhadledd***
Ffynhonnell: System monitro prosiectau CCGC




Y thema gref arall a leisiwyd gan ymatebwyr yr arolwg oedd ailadrodd gweithdai yn ystod y dydd gan fod yn rhaid i gynrychiolwyr ddewis o bum gweithdy ym mhob sesiwn[15]. Weithiau roedd y gweithdai a ffafriwyd ganddynt i gyd yn yr un sesiwn. Roedd y galwadau am ailadrodd gweithdai, derbyn copi o nodiadau gweithdai na lwyddwyd i'w mynychu ac am sesiwn ychwanegol i gyd yn pwysleisio gwerth canfyddedig cynnwys y gweithdai. Yn benodol, gofynnodd rhai cynrychiolwyr am weithdai hirach i wneud y mwyaf o ddysgu ar bwnc, tra bod eraill eisiau gweithdai

[14] Ymateb i Atodiad D, cwestiwn 3
[15] Ibid

byrrach er mwyn ffitio sesiwn arall i mewn; roedd rhai eisiau llai o ‘siarad o’r blaen’, gyda mwy o ryngweithio. Fodd bynnag, roedd ymatebion o’r fath yn pwysleisio gwahanol arddulliau dysgu pobl, yn hytrach na thuedd glir ar gyfer newidiadau i strwythur y rhaglen.

Gan edrych y tu hwnt i’r gynhadledd, gofynnwyd i gynrychiolwyr beth allai CCGC ei wneud yn well i gefnogi eu sefydliad. Y thema gryfaf oedd boddhad â CCGC, gydag unrhyw awgrymiadau yn cael eu cynnig fel gwelliannau, yn hytrach nag fel sylwadau negyddol[16]. Roedd galw am fwy o hyfforddiant ymarferol, neu hyfforddiant mwy aml. Roedd pwyslais parhaus ar rwydweithio a hwyluso partneriaethau. Yn yr un modd, roedd angen parhaus am gyngor ar gyllido a chefnogaeth i brosiectau. Roedd awydd hefyd am gefnogaeth ar gyfer gwell hyrwyddo / gwelededd i sefydliadau oedd yn aelodau.

Pan ofynnwyd pa hyfforddiant y gallai CCGC ei gynnig a fyddai’n ddefnyddiol, roedd rhai themâu cryf wedi’u hysgogi gan yr enghreifftiau a ddyfynnwyd gan CCGC yn yr arolwg adborth[17]:

- Cyllid a chynaliadwyedd ariannol
- Rheoli a goruchwylio gwirfoddolwyr
- Diogelu a risg
- Llywodraethu a rolau ymddiriedolwyr
- Sgiliau digidol ac AI

Gofynnwyd i’r cynrychiolwyr beth, os o gwbl, yr oeddent yn bwriadu ei wneud yn wahanol o ganlyniad i ddysgu yn y gynhadledd[18]. Roedd themâu o’r ymatebion yn dynodi gorgyffwrdd cryf â sesiynau rhai gweithdai:

- Mabwysiadu ac integreiddio AI (thema gref)
- Datblygu strategaethau gwirfoddoli (thema gref)
- Cryfhau arfer cyfryngau digidol/cymdeithasol (thema gref)
- Codi arian ac arallgyfeirio incwm (thema gymedrol)
- Dilyn i fyny â chydweithrediadau o ganlyniad i gysylltiadau a wnaed yn y digwyddiad

Er bod y themâu hyn yn dangos beth yr oedd y cynrychiolwyr yn bwriadu ei wneud, roedd gwerthuswyr yn gallu dilyn i fyny gyda’r rheini roddodd ganiatâd i wneud hynny,

[16] Ymateb i Atodiad D, cwestiwn 5
[17] Ymateb i Atodiad D, cwestiwn 6
[18] Ymateb i Atodiad D, cwestiwn 4

er mwyn deall pa newid ymddygiad gwirioneddol a oedd wedi digwydd. Mae Atodiad E yn crynhoi'r ymatebion.

Fe wnaeth tua thri chwarter o'r ymatebwyr drosi bwriad i roi dysgu ar waith yn weithredu clir neu rannol, gyda thua hanner yr ymatebwyr yn gweithredu'n glir yr hyn yr oeddent yn ei fwriadu. Fodd bynnag, roedd sampl yr ymatebwyr a roddodd adborth yn fach ac yn hunan-ddewisol (dangos rhagfarn), felly mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r adborth hwn h.y. ni ellir tybio ei fod yn gynrychioliadol o boblogaeth lawn cynrychiolwyr y gynhadledd.

Daeth dealltwriaeth fwy ystyrlon o drosi dysgu a fwriadwyd yn weithredu gwirioneddol o ddadansoddi'r mathau o ddysgu a droswyd yn llwyddiannus. Sesiynau ymarferol, cymhwysol, sy'n canolbwyntio ar offer, a gynhyrchodd y lefelau trosi uchaf o fwriad i weithredu ar gyfer unigolion. Mewn rhai achosion, llifodd y manteision drwodd o'r unigolyn i'w sefydliad. Yr enghraifft gryfaf o fwriad wedi'i drosi i weithredu oedd o ddysgu am AI a chyfryngau digidol/cymdeithasol. Adroddodd y cynrychiolwyr y canlynol:

- Enillion o ran cynhyrchiant
- Cefnogaeth ar gyfer datblygu polisi
- Mwy o hyder

Nododd y canfyddiadau hefyd newidiadau llywodraethu strategol mewn rhai achosion. Dangosodd bwriadau ariannu hyder cynyddol ond newid gweladwy arafach[19]. Roedd strategaeth gwirfoddolwyr yn faes a ddangosodd lefel drosi wannach o fwriad i ymarfer.

### 5.3 Hyfforddiant / Digwyddiadau cefnogi y Trydydd Sector

Roedd yna sesiynau hyfforddi a chefnogaeth ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a gynigiwyd yn y gynhadledd. Mae Tabl 5.2 yn rhoi trosolwg:

[19] Roedd y gwaith dilyn i fyny tua thri mis ar ôl y gynhadledd. Er y gallai trosi dysgu yn ymarfer ddigwydd o hyd, mae'r tebygolrwydd y bydd hyn yn deillio o ddysgu'r gynhadledd yn lleihau dros amser.

***Tabl 5.2 – Trosolwg o ddigwyddiadau hyfforddi ac ymgysylltu gwirfoddolwyr unigol***

Ffynhonnell: Gwybodaeth monitro prosiectau CCGC

| **Dyddiad** | **Cwrs / Digwyddiad** | **Nifer y sefydliadau a fynychodd** | **Nifer y cyfranogwyr a fynychodd** |
|---|---|---|---|
| 19/05/25 | Ffair Wirfoddoli | 12 (stondiwyr) | Heb ei gofnodi |
| 06/06/25 | Digwyddiad Wythnos Gwirfoddolwyr | 17 | 19 |
| 08/07/25 | Ffair Gyllido | 29 | Heb ei gofnodi |
| 30/09/25 | Cyflwyniad i Reoli Gwirfoddolwyr | 10 | 10 |
| 07/10/25 | Gwirfoddoli a'r Gyfraith | 5 | 12 |
| 08/10/25 | Goruchwylio Gwirfoddolwyr | 5 | 10 |
| 20/10/25 | Cynllunio Busnes ar gyfer y Trydydd Sector | 6 | 8 |
| 26/11/25 | Sgiliau Fideo ar gyfer Elusennau | 4 | 5 |
| 01/12/25 | Ymgynghoriad Cymunedol 101 | 4 | 4 |
| 03/12/25 | Ymgynghoriad Cymunedol 101 | 7 | 8 |
| 20/01/26 | Bod yn Dîm Ymddiriedolwyr Effeithiol | 6 | 8 |
| 11/03/26 (wedi'i drefnu) | Hanfodion Cadw Cyfrifon | 6 | 6 |

Nifer y sefydliadau a fynychodd a gasglwyd gan CCGC, yn unol â'r allbwn a'r canlyniadau sy'n ofynnol gan UKSPF. Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant wedi'i gofnodi ond nifer y mynychwyr mewn digwyddiadau agored heb ei gofnodi.

Gofynnodd CCGC i gynrychiolwyr gwblhau arolwg adborth yn dilyn digwyddiadau hyfforddi. Atgynhyrchir crynodeb o'r ymatebion yn Atodiad F. Roedd yr ymatebion yn gyson ar draws y cyrsiau, felly cyflwynwyd y crynodeb ar gyfer cyfanswm y digwyddiadau yn hytrach na digwyddiadau unigol.

Roedd y cynrychiolwyr yn rhoi ystyriaeth uchel i'r cyrsiau hyfforddi, gyda phob agwedd ar y cyrsiau wedi'u graddio'n dda neu'n rhagorol gan 97% o'r cyfranogwyr[20]. Roedd tueddiadau clir mewn ymatebion i gwestiwn a oedd yn holi beth oedd y cynrychiolwyr

[20] Atodiad F, ymatebion i gwestiynau 2 a 4

yn teimlo oedd fwyaf defnyddiol[21]. Teimlwyd bod y cynnwys o ansawdd uchel ac yn addysgiadol. Teimlwyd bod hyfforddiant yn ymarferol ei natur, gan gynnig allbynnau y gellid eu defnyddio, megis templedi, syniadau newydd a chanllawiau. Roedd y cyfle i ddysgu gan gymheiriaid a rhwydweithio hefyd yn thema gref.

Gan symud o ymatebion y cynrychiolwyr i'r cyrsiau hyfforddi (Lefel 1 o fodel Kirkpatrick o werthuso hyfforddiant[22]), mae tabl 5.3 yn ei gwneud yn glir bod dysgu cryf (Lefel 2) wedi digwydd.

***Tabl 5.3 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:*** (n=36)

Ffynhonnell: Gwybodaeth monitro CCGC. Mae mwy o fanylion ar gael yn atodiad F, ymatebion i gwestiwn 5

| Datganiad | Nifer (canran) y cynrychiolwyr sy'n 'cytuno'n gryf neu'n cytuno rhywfaint' |
|---|---|
| Mae wedi cynyddu fy ngwybodaeth am y pwnc | 35 (97%) |
| Rydw i wedi gwella fy sgiliau | 35 (97%) |
| Mae wedi cynyddu fy hyder i gyflawni fy rôl | 35 (97%) |
| Rwy'n fwy ymwybodol o arfer gorau | 35 (97%) |
| Rwy'n teimlo'n fwy cysylltiedig â chefnogaeth arbenigol | 34 (94%) |

Mae'r dadansoddiad pellach yn Atodiad F[23] yn dangos bod rhwng 78% a 92% o'r ymatebion yn cytuno'n gryf â phob datganiad.

Yr ymateb cyffredinol gan y cynrychiolwyr oedd boddhad â'r hyfforddiant a chymeradwyaeth gref i'r hyfforddwyr a gyflwynodd y sesiynau[24]. Cynigiwyd nifer fach o syniadau i wella amseriad neu hygyrchedd cyrsiau[25] yn y dyfodol, ond nid oedd unrhyw alwadau cyson am newid a oedd yn arwain at dueddiadau.

[21] Atodiad F, ymateb i gwestiwn 3

[22] Mae pedwar lefel i fodel Kirkpatrick o werthuso hyfforddiant: 1. Ymateb – a oedd y cyfranogwyr yn fodlon ar y rhaglen? 2. Dysgu – beth ddysgodd y cyfranogwyr yn y rhaglen? 3. Ymddygiad – a newidiodd y cyfranogwyr eu hymddygiad yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd? 4. Canlyniadau – a gafodd y newid mewn ymddygiad effaith gadarnhaol ar y sefydliad? Gweler, er enghraifft, Phillips, J.J. (2004) Handbook of Training Evaluation and Measurement Methods, Jaico Publishing House, Mumbai

[23] Atodiad F, ymatebion i gwestiwn 5

[24] Atodiad F, ymatebion i gwestiwn 9

[25] Atodiad F, ymatebion i gwestiwn 6

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr a oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau ar gyfer cyrsiau hyfforddi yn y dyfodol[26]. Er mai un o'r ddau duedd cryfaf oedd ar gyfer cyrsiau ynghylch rheoli a chadw gwirfoddolwyr, mae'n debyg bod hyn wedi'i ysgogi gan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn dilyn cyrsiau yn ymwneud â rheoli gwirfoddolwyr a 50% o'r ymatebwyr yn rheolwyr / cydlynwyr gwirfoddolwyr[27]. Y duedd allweddol arall mewn ceisiadau oedd hyfforddiant diogelu. Roedd pynciau hyfforddi eraill a awgrymwyd yn cynnwys llywodraethu, sgiliau cynnig am gyllid, hygyrchedd ac ymdrin â materion AD.

### 5.4 Ymchwil

Comisiynodd CCGC adroddiad ar ddarpariaeth trafnidiaeth gymunedol yn Sir Conwy. Nododd anghenion penodol oedd heb eu diwallu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig:

- Roedd y ddarpariaeth teithio i'r gwaith yn rhy anymarferol, anghyfleus neu annibynadwy i rai
- Nid oedd rhai disgyblion ysgol yn gallu mynychu clybiau ar ôl ysgol na chyrraedd adref o'r ysgol o'u dewis
- Roedd pobl â phroblemau iechyd yn ei chael hi'n anodd cyrraedd arosfannau bysiau neu roedd cyfanswm yr amseroedd teithio ar gyfer gweithgareddau byr yn anymarferol.

Canlyniad amrywiaeth o rwystrau i ymgysylltu â'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus a oedd yn bodoli oedd:

- Unigrwydd ac ynysigrwydd, yn enwedig i rai o'r rhai mwyaf bregus yn y gymdeithas
- Effaith negyddol ar fywiogrwydd a hyfywedd pentrefi a threfi Conwy
- Mae sefydliadau'r trydydd sector dan fygythiad, gyda rhai grwpiau cymdeithasol yn wynebu gorfod cau oherwydd na all cyfranogwyr posibl gael mynediad at y ddarpariaeth mwyach gan fod gwasanaethau bysiau gwledig wedi'u lleihau, wedi dod yn ddrytach neu fod gwasanaethau yn cael eu canslo, gan adael cyfranogwyr yn sownd

Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai dim ond os yw'n cyflwyno ateb hirdymor cynaliadwy ac wedi'i integreiddio i'r seilwaith trafnidiaeth ehangach y dylid mynd ar drywydd unrhyw fenter Trafnidiaeth Gymunedol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

[26] Atodiad F, ymatebion i gwestiwn 8
[27] Atodiad F, ymatebion i gwestiynau 7 ac 1

# 6. Cynnydd tuag at allbynnau a chanlyniadau

Mae Tabl 6.1 yn crynhoi'r allbynnau a'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y prosiect.

**Allwedd**

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Targed wedi'i gyflawni neu rhagorwyd arno |
| Oren | Targed wedi'i gyflawni'n rhannol neu dim digon o dystiolaeth o gyflawniad |
| Coch | Targed heb ei gyflawni neu dim tystiolaeth ei fod wedi'i gyflawni |

***Tabl 6.1 – Cynnydd tuag at dargedau allbwn***

Ffynhonnell: Gwybodaeth monitro prosiectau CCGC

| Disgrifiad | Targed | Allbwn |
|---|---|---|
| Nifer y sefydliadau yn derbyn grantiau | 16 | 40[(a)] |
| Nifer y sefydliadau yn derbyn cefnogaeth anariannol | 100 | 146 |
| Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gefnogwyd | 30 | 1,031[(b)] |
| Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a ddatblygwyd o ganlyniad i'r gefnogaeth | 3 | 6 |

(a) Er bod 42 o brosiectau wedi'u cymeradwyo, cafodd dau ficro-brosiect eu heithrio o'r allbwn gan fod y ddau sefydliad wedi cael eu cefnogi yn ystod cam 2023-25 cyllid UKSPF ar gyfer prosiectau nad oeddent yn sylweddol wahanol.

(b) Arweiniodd un prosiect, a oedd yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o golled synhwyraidd ar-lein gan y Ganolfan Arwyddo Golwg Sain, at 750 o wirfoddolwyr yn cofrestru ac yn dechrau hyfforddi. Cadarnhawyd bod 83% wedi cwblhau a phasio hyfforddiant y system rheoli dysgu h.y. y cyfraniad mwyaf ceidwadol at yr allbwn cefnogaeth o'r ddarpariaeth unigol hon oedd 622, gan leihau'r allbwn i 903.

Er bod y cyfraniadau gan sefydliadau eraill hefyd wedi rhagori'n sylweddol ar y targed, roedd yn debygol bod y cyfraniad gan rai yn danddatganiad, ac mewn o leiaf un achos roedd eu cyfraniad yn ymddangos yn or-ddatganiad. Nododd cyfweliadau a gynhaliwyd gyda sefydliadau buddiolwyr wirfoddolwyr a gefnogwyd trwy'r prosiect hwn nad oeddent wedi'u cofnodi ar y ffurflenni monitro buddiolwyr grant a hunan-lenwyd, ac felly ni chawsant eu cofnodi gan CCGC. Yn yr un modd, roedd yna o leiaf un sefydliad a nododd yr un nifer o wirfoddolwyr a gefnogwyd ag a grëwyd, gan awgrymu camddealltwriaeth bosibl y gallai gwirfoddolwyr a gefnogwyd fod yr un bobl a gofrestrwyd â chyfleoedd gwirfoddoli a grëwyd.

Ar y cyfan, er y gellir dadlau ynghylch union nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gefnogwyd, mae’r ffaith yn parhau bod yr allbwn wedi rhagori’n sylweddol ar y targed.

***Tabl 6.2 – Cynnydd tuag at dargedau canlyniad***

Ffynhonnell: Gwybodaeth monitro prosiectau CCGC

| **Disgrifiad** | **Targed** | **Canlyniad** |
|---|---|---|
| Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a grëwyd o ganlyniad i gefnogaeth | 45 | 115 |
| Nifer y prosiectau a ddeilliodd o astudiaethau dichonoldeb a ariannwyd | 2 | 4 |

# 7. Casgliadau, gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

## 7.1 Casgliadau

Dangosodd CCGC aeddfedrwydd fel rheolwr cyllido yn ystod cam cychwyn y prosiect. Roedd cydnabyddiaeth bod amserlen fer y prosiect estyniad hwn yn rhoi pwysau ar fuddiolwyr posibl y Gronfa Allweddol. Lliniarodd ddull pragmatig CCGC o hyrwyddo cyn derbyn y llythyr cynnig grant prosiect ffurfiol, ond nid cymeradwyaeth grantiau buddiolwyr, y pwysau hwn i ryw raddau, gan reoli'r risg ariannol i CCGC yn effeithiol.

Cafodd gwerth am arian ei wella yn gynnar yn y prosiect wrth i CCGC leihau ei gostau cyflog a'i gyfraniad at orbenion, gan ailddyrannu'r arian hwn i fuddiolwyr.

Rhoddodd y canfyddiadau farn gref gan sefydliadau buddiolwyr fod CCGC yn alluogwr y broses ymgeisio am grant. Lleihaodd CCGC fiwrocratiaeth ac ychwanegodd werth trwy ddealltwriaeth o'r sector a'r gwahanol opsiynau cyllido sydd ar gael i sefydliadau trydydd sector yng Nghonwy.

Dangosodd y canfyddiadau ystyriaeth gadarn ac addas at y diben o geisiadau grant i'r Gronfa Allweddol. Roedd ymddiriedaeth yn y broses yn amlwg, i'r graddau bod ymgeiswyr a oedd â chyllidebau wedi'u lleihau yn parchu safbwynt CCGC.

Roedd dull pragmatig a chefnogol o ymdrin â cheisiadau am grantiau'r Gronfa Allweddol yn trosi ar y cyfan i fonitro prosiectau addas at y diben buddiolwyr. Un maes o wendid oedd cydnabyddiaeth anghyson o gyllid UKSPF yn y deunyddiau hyrwyddo gan rai buddiolwyr.

Gwerthfawrogwyd y dull pragmatig ac amserol o gymeradwyo ailddyrannu tanwariant gan sefydliadau buddiolwyr. Cyfrannodd hyn at wneud y mwyaf o ganlyniadau, gan sicrhau bod arian yn cael ei wario'n briodol.

Dangosodd y canfyddiadau fod prosiectau a gefnogwyd gan grantiau Cronfa Allweddol yn gwneud y canlynol:

- Galluogi cyflawniad gweithgareddau na fyddai wedi digwydd fel arall. Mewn rhai achosion, gwnaeth y canfyddiadau'n glir na fyddai'r gweithgareddau wedi digwydd.
- Cynyddu ansawdd a graddfa digwyddiadau cymunedol.
- Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol trwy fynediad am ddim.

- Hyrwyddo iechyd a lles trwy weithgareddau gweithredol, therapiwtig a/neu gymdeithasol.
- Cryfhau cynaliadwyedd gwirfoddolwyr.
- Cyflawni canlyniadau gweladwy, seiliedig ar le.

Roedd hyn yn unol ag amcanion datganedig y Gronfa Allweddol.

Mae cyflawniad gweithgareddau, yn amrywio o deithiau undydd ar gyfer pobl wedi ymddeol i raglenni lles coetir neu gefnogaeth i sefydliadau adnabyddus megis yr RSPCA, yn gymharol gyffredin ar gyfer prosiectau seiliedig ar refeniw sy'n cefnogi'r trydydd sector. Nodwedd amlwg o'r prosiect hwn oedd cefnogaeth i brosiectau buddsoddi. Roedd enghreifftiau'n cynnwys:

- dull newydd ar gyfer darpariaeth manwerthu gan Hosbis Dewi Sant
- cefnogaeth i gymuned sy'n ceisio adeiladu tai ar hen safle ysgol mewn ardal lle na allai pobl ifanc leol fforddio tai
- sefydlu digwyddiad Parkrun
- cefnogaeth i weithredu cynllun trydan dŵr mewn clwb rygbi
- gwella gallu gorsaf radio, gwella mynediad a chapasiti

Roedd y mathau hyn o brosiectau *buddsoddi* yn sefyll allan oherwydd:

- nododd buddiolwyr fod cefnogaeth ariannol ar gyfer y mathau hyn o brosiectau yn arbennig o brin, naill ai oherwydd risg ganfyddedig neu oherwydd nad yw gwaith dichonoldeb yn tueddu i roi canlyniadau uniongyrchol i gyllidwyr
- roedd y mathau hyn o brosiectau'n cynnig y potensial i gyflawni canlyniadau parhaus. Enghraifft dda o ble y cyflawnwyd hyn o fewn oes y prosiect oedd buddsoddiad Parkrun

Gwerthfawrogodd y buddiolwyr y gefnogaeth anariannol a gynigiwyd gan y prosiect. Denodd y gynhadledd nifer sylweddol o fynychwyr, yn gynrychiolwyr ac yn arddangoswyr. Teimlai'r cynrychiolwyr bod y sesiynau yn y gynhadledd a'r sesiynau hyfforddi annibynnol yn ymarferol ddefnyddiol.

Roedd y canfyddiadau'n cynnwys tystiolaeth bod dysgu'n trosi'n gamau ymarferol, yn enwedig lle'r oedd enillion cyflym yn bosibl, er enghraifft ym meysydd defnydd AI a chyfryngau digidol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol. Roedd gwerth ychwanegol dysgu gan gymheiriaid, a rhwydweithio / meithrin perthnasoedd hefyd yn fuddion a adroddwyd yn gyffredin o'r gynhadledd a'r digwyddiadau hyfforddi

annibynnol. Cynigiodd y gynhadledd werth ychwanegol trwy'r arddangosfa a ddaeth â chyllidwyr a'r rhai sy'n cefnogi / recriwtio gwirfoddolwyr at ei gilydd.

Archwiliodd yr adroddiad ar ddarpariaeth trafnidiaeth gymunedol yn Sir Conwy broblem a oedd yn anecdotaidd hysbys, sef heriau mynediad i rai o'r grwpiau mwyaf bregus yng nghefn gwlad Conwy. Darparodd dystiolaeth o'r problemau a dangosodd sut y dylid a sut na ddylid mynd i'r afael â datrysiad h.y. roedd yn brosiect dichonoldeb strategol yn ei gamau cynnar, yn y bôn yn cyd-fynd â phrosiectau buddsoddi'r Gronfa Allweddol.

Ar y cyfan, rhagorwyd ar bob targed allbwn a chanlyniad y cytunwyd arnynt ar gyfer y prosiect. Roedd graddfa rhai cyflawniadau ymhell y tu hwnt i'r targed, gan awgrymu y gallai targedau mwy heriol fod wedi'u gosod ar y dechrau. Cafeat i'r casgliad hwn oedd nad oedd natur y prosiectau a gynigiwyd i'r Gronfa Allweddol yn hysbys ar adeg datblygu'r prosiect, o ystyried bod yr amserlenni cyflawni yn wahanol iawn i gam blaenorol y prosiect.

**Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion**

Ychwanegodd CCGC werth at sefydliadau trydydd sector yng Nghonwy drwy reoli cronfeydd ar ran nifer o gyllidwyr. Roedd sefydliadau trydydd sector yn gwerthfawrogi gallu mynd i un lle am gyngor cydgysylltiedig, yn hytrach na gwahanol gyllidwyr.

**Argymhelliad 1**: Dylai CCGC barhau i geisio cytundebau i reoli cronfeydd ar gyfer amrywiaeth o gyllidwyr sy'n ceisio cefnogi gwaith yng Nghonwy.

Cydnabu ymgeiswyr i'r Gronfa Allweddol fuddion rheolaeth CCGC o gyllid UKSPF yn mynd y tu hwnt i ddyrannu grantiau. Gwerthfawrogwyd cefnogaeth ddilynol i wella llywodraethu a pholisïau gan ymgeiswyr.

**Argymhelliad 2**: Dylai CCGC barhau i gefnogi ymgeiswyr i'r cronfeydd y mae'n eu rheoli gyda chyngor rhagweithiol ar fesurau i gryfhau sefydliadau sy'n ymgeisio, er enghraifft yn ymwneud â llywodraethu a pholisïau.

Cydnabu CCGC gefnogaeth Llywodraeth y DU yn gyson ar unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddiwyd yn ystod y prosiect. Nid oedd hyn bob amser yn wir ar gyfer pob prosiect buddiolwr.

**Argymhelliad 3**: Wrth reoli cronfeydd yn y dyfodol, dylai CCGC gynnal gwiriadau sampl ar hap o gyfryngau digidol a ffisegol buddiolwyr i wirio bod cyllidwyr yn cael eu cydnabod yn briodol, ynghyd ag atgoffa sefydliadau i ddefnyddio cydnabyddiaethau yn gyson.

Roedd y swm lleiaf posibl o fiwrocratiaeth, pragmatiaeth a gwneud penderfyniadau cyflym yn nodweddion dull rheoli cronfeydd CCGC. Lliniarodd hyn rywfaint ar yr amserlen gyflawni fer oedd ar gael i brosiectau'r Gronfa Allweddol a galluogi i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

**Argymhelliad 4**: Dylai CCGC gadw'r dull gweithio a ddangoswyd yn ystod y prosiect hwn wrth reoli cronfeydd eraill: lleihau biwrocratiaeth, defnyddio dull pragmatig a gwneud penderfyniadau'n gyflym, gan gynnal rheolaeth effeithiol o risg a gonestrwydd ariannol.

Roedd cefnogaeth i brosiectau *buddsoddi* yn nodwedd o'r Gronfa Allweddol a oedd yn ei gwahaniaethu oddi wrth lawer o gronfeydd eraill sy'n seiliedig ar refeniw. Roedd yn elfen o'r prosiect a gyfrannodd yn sylweddol at waddol y prosiect.

**Argymhelliad 5**: Wrth reoli cronfeydd refeniw yn y dyfodol, dylai CCGC geisio ymgorffori elfen o gefnogaeth i brosiectau *buddsoddi* ym mhortffolio'r prosiectau a gymeradwyir.

Gwerthfawrogwyd cynhadledd CCGC gan y mynychwyr ac, yn bwysig, rhoddodd werth clir o ran dysgu (cynnwys a rhwng cymheiriad), rhwydweithio / meithrin perthnasoedd a mynediad at sefydliadau cymorth / cyllido. Efallai y bydd angen defnyddio dulliau eraill i wneud y ddarpariaeth yn fwy fforddiadwy i CCGC yn y dyfodol, er enghraifft y gallu i gynrychiolwyr brynu cinio yn y lleoliad neu opsiwn i ddod â phecyn cinio, yn hytrach na darparu cinio am ddim.

**Argymhelliad 6**: Dylai CCGC geisio adeiladu pecyn cymorth gan gyllidwyr, arddangoswyr a noddwyr i gynnig cynhadledd trydydd sector yng Nghonwy yn y blynyddoedd i ddod.

**Argymhelliad 7**: Dylai CCGC ailystyried sylfaen cost ei gynhadledd er mwyn gwella fforddiadwyedd / cynaliadwyedd y ddarpariaeth.


Pwysleisiwyd gwerth canfyddedig sesiynau hyfforddi yn y gynhadledd gan alwadau i ailadrodd gweithdai yn ystod gwahanol sesiynau, ac felly rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i gynrychiolwyr fynychu pob pwnc sydd o ddiddordeb iddynt.

**Argymhelliad 8**: Wrth gynllunio cynadleddau yn y dyfodol, dylid trefnu i ailadrodd sesiynau gweithdai allweddol er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd gorau posibl i fynychu.

Hyfforddiant a ddarparodd offer a thempledi oedd yn trosi'n fwyaf effeithiol i gymhwyso. Roedd hyfforddiant a oedd angen mwy o feddwl ac amser i fanteision gronni, er enghraifft datblygu strategaethau gwirfoddol, yn tueddu i ddangos llai o gynnydd o ran ei weithredu.

**Argymhelliad 9**: Pan fo cyrsiau hyfforddi yn gofyn am ymdrech barhaus gan gynrychiolwyr i wireddu buddion, dylai CCGC ystyried cynnwys sesiynau cyngor / mentora dilynol i hyrwyddo trosi dysgu yn gymhwyso.

# Atodiad A – Model rhesymeg prosiect



**Allwedd**

Perthynas un-i-un syml (cadwyn resymeg glir) →

Perthynas un-i-lawer (priodoli'n fwy cymhleth) →

**Tybiaethau**

Rhannwyd y canllawiau canlynol gan Gyngor Gwynedd gyda CCGC mewn gweminar canlyniadau ac allbynnau ar 16/09/25:

Gellir cefnogi buddiolwyr h.y. y bobl, busnesau, adeiladau neu ardaloedd o dir a gefnogwyd yn 2022-25 eto yn 2025-26. Fodd bynnag, dim ond os yw'r gefnogaeth yn sylweddol wahanol i'r hyn a gawsant yn 2022-25 y gellir eu hadrodd/hawlio eto. Nid yw cefnogaeth yn sylweddol wahanol pan fydd yn ailadrodd yr un gweithgaredd gyda'r un unigolyn neu sefydliad, pan nad yw'n cynnig unrhyw gynnwys, dull cyflwyno na dwyster newydd, pan nad yw'n arwain at ganlyniad newydd neu well neu pan fo'n cynnal neu'n barhad o gefnogaeth flaenorol sydd heb newid.

OP25: Nifer y sefydliadau sy'n derbyn grantiau: 16

Mae'r canlyniad yn cyfeirio at nifer y sefydliadau sy'n derbyn cyllid o Gronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol. Bydd rhai o'r sefydliadau a ariennir yr un fath â'r rhai a ariannwyd yn rownd 2023-25. Fodd bynnag, byddant yn cael eu cyfrif ar wahân, gan y bydd y gefnogaeth a ddarperir yn sylweddol wahanol i'r gefnogaeth a ddarparwyd y flwyddyn flaenorol. Os ariennir parhad o'r un prosiect ar gyfer yr un sefydliad, ni fydd hyn yn cael ei gyfrif eto.

OP26: Nifer y sefydliadau sy'n derbyn cefnogaeth anariannol: 100

Bydd tystiolaeth ar gyfer y canlyniad hwn yn dod o nifer y sefydliadau sy'n mynychu sesiynau hyfforddi'r prosiect, gan gynnwys Cynhadledd Trydydd Sector. Mae rhaglen y gynhadledd yn gwbl wahanol i raglen y flwyddyn flaenorol. Hyd yn oed os yw'r un sefydliadau yn mynychu'r gynhadledd yn 2023-25 ac eleni, byddant yn dal i gael eu cyfrif gan fod y gefnogaeth yn cynnig cynnwys newydd. Os yw'r un sefydliad yn mynychu'r un sesiwn hyfforddi yn 2025-26 ag a fynychodd yn 2023-25, bydd hyn yn cael ei farcio fel dyblyg a'i dynnu o'r nifer a hawlir. Os yw'r un sefydliad yn mynychu mwy nag un cwrs hyfforddi yn yr un flwyddyn, dim ond fel 1 sefydliad a gefnogir y bydd hyn yn cael ei gyfrif.

OP28: Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a ddatblygir o ganlyniad i gefnogaeth: 3

Bydd y niferoedd a hawlir o dan y canlyniad hwn yn cynnwys astudiaethau dichonoldeb o Gronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol ac ymchwil trafnidiaeth gymunedol a ariennir gan UKSPF CCGC. Mae CCGC yn deall bod astudiaethau dichonoldeb yn cynnwys ymdrechion megis adeiladu arolygon, ymgynghoriadau cymunedol, ymchwil. Bydd canlyniadau'r astudiaeth dichonoldeb yn nodi a oes prosiect realistig a/neu ariannol ddichonadwy y gellid ei ariannu yn y dyfodol.

OC30: Nifer y prosiectau sy’n deillio o astudiaethau dichonoldeb a gyllidir: 2
Fel uchod, os yw’r astudiaeth dichonoldeb yn nodi prosiect realistig a/neu ariannol dichonadwy y gellid ei ariannu yn y dyfodol, bydd hyn yn cael ei gyfrif fel prosiect sy’n deillio o’r astudiaeth.

OP27: Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gefnogir: 30
Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr allbwn hwn yn dod o fonitro Cronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol. Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gefnogir yw nifer y gwirfoddolwyr presennol sydd wedi elwa o’r cyllid. Mae enghreifftiau o fudd yn cynnwys hyfforddiant, goruchwylio/rheoli, cyllid ar gyfer adnoddau (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr). Bydd ymgeiswyr i Gronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol yn adrodd ar hyn ar eu ffurflen monitro prosiectau.

OC29: Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a grëir o ganlyniad i gefnogaeth: 45
Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr allbwn hwn yn dod o fonitro Cronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol. Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a grëir yw nifer y gwirfoddolwyr newydd sydd wedi cael eu recriwtio o ganlyniad i’r cyllid hwn. Bydd ymgeiswyr Cronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol yn adrodd ar hyn ar eu ffurflen monitro prosiect.

## Atodiad B – Canllaw pwnc enghreifftiol

### Canllaw Pwnc 1 – Cynrychiolydd sefydliad

*Sicrhewch ganiatâd gwybodus penodol ar gyfer cyfweliad: cyfweliad yn gyfrinachol – tueddiadau yn cael eu hadrodd i CCGC; dyfyniadau wedi'u dienwi; nid oes rhaid ateb unrhyw gwestiynau; gallwch roi'r gorau iddi ar unrhyw adeg. Sicrhewch ganiatâd penodol i recordio.*

**Cyflwyniad**

1. [Os nad yw'n amlwg] Yn gryno, beth mae eich sefydliad yn ei wneud?
2. Beth yw eich rôl yn y sefydliad?

**Ymgysylltu â Chronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol CCGC**

3. Rwy'n deall bod eich sefydliad wedi derbyn cefnogaeth gan Gronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol CCGC eleni. Sut glywsoch chi am y cyllid? Ydych chi'n ymwybodol o bwy ddarparodd y cyllid i CCGC ei ddosbarthu?
4. Pa mor hawdd neu anodd oedd y broses ymgeisio am gefnogaeth ariannu i chi?
5. [Os na atebwyd yn flaenorol] I ba raddau wnaeth staff CCGC eich cefnogi wrth baratoi eich cais?
6. Rydw i wedi darllen disgrifiad eich prosiect yn y cais. Ond, sut fyddech chi'n crynhoi beth yw'r prosiect?
7. [Os na atebwyd yn flaenorol] Sut mae'r gwaith cyflawni'n mynd rhagddo?
8. Beth yw eich barn am anghenion monitro ac adrodd prosiectau CCGC? Unrhyw broblemau?
9. Ai prosiect newydd oedd hwn neu a oedd yn adeiladu ar rywbeth oedd wedi digwydd yn flaenorol?
10. Oeddech chi wedi derbyn cyllid gan Gronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol mewn blynyddoedd blaenorol? Os felly, beth, os o gwbl, oedd yn wahanol am brosiect eleni?

**Canlyniadau**

11. Pa wahaniaeth mae eich prosiect a gefnogwyd wedi'i wneud i'ch sefydliad?

12. Pa wahaniaeth mae eich prosiect a gefnogwyd wedi'i wneud i'r gymuned ehangach?

13. Efallai bod eich prosiect wedi cefnogi gwirfoddolwyr a oedd gennych eisoes a/neu wedi eich galluogi i recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr newydd. Sut mae'r ddwy agwedd hynny ar y prosiect yn mynd rhagddynt?

**Cefnogaeth anariannol**

14. A wnaethoch chi gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant neu gael unrhyw gyngor gan CCGC eleni?

15. [Gofynnwch os oes angen] A aethoch chi i Gynhadledd CCGC yn Llandudno ym mis Tachwedd? Os felly, pa sesiynau wnaethoch chi eu mynychu?

16. [Os mynychwyd y gynhadledd] Beth wnaethoch chi ei ddysgu o sesiynau'r Gynhadledd?

17. [Os mynychwyd y gynhadledd] A oes unrhyw beth rydych chi wedi/yn mynd i'w roi ar waith yn eich sefydliad o ganlyniad i'r dysgu hwn? [Os yw'n berthnasol] Pa wahaniaeth wnaeth hynny i'ch sefydliad.

18. [Os mynychwyd y gynhadledd] Gall digwyddiadau fel y gynhadledd weithiau ddarparu cefnogaeth cymheiriaid gan bobl o'r un anian neu efallai arwain at gydweithrediadau ar ôl rhwydweithio. A oedd unrhyw bethau cadarnhaol penodol a nodwyd gennych trwy gyfarfod â phobl yno?

**Dyblygu / Difuddiant / Priodoli**

19. Pe na bai eich prosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol, ble arall y gallech chi fod wedi cael y cyllid? A fyddai hynny wedi bod mor hawdd neu mor gyflym?

**Cau**

20. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y gynhadledd neu Gronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol?

## Atodiad C – Trosolwg o brosiectau a gafodd gefnogaeth ariannol

| **Sefydliad** | **Y Ganolfan Arwyddo Golwg Sain (COS)** |
|---|---|
| **Dyfarniad** | **£12,500** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth synhwyraidd ar-lein i 1,500 o bobl sy'n gwirfoddoli yng Nghonwy. Bydd yr hyfforddiant yn rhoi gwybodaeth sylfaenol i wirfoddolwyr am anghenion pobl sy'n byw gyda cholled synhwyraidd a'r offer i gyfathrebu ar lefel sylfaenol â nhw. Mae'r hyfforddiant ar gael trwy'r Gymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain gyda thrac sain i'r rheini sy'n teimlo bod dilyn gwybodaeth ysgrifenedig yn rhwystr i'r math hwn o hyfforddiant |

| **Sefydliad** | **Home-Start Conwy** |
|---|---|
| **Dyfarniad** | **£15,319.51** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Mae Home-Start yn bodoli i:<br>• atal creulondeb i blant neu gamdriniaeth plant;<br>• lleddfu salwch, tlodi ac angen ymhlith plant a rhieni plant;<br>• hyrwyddo addysg y cyhoedd mewn safonau gwell o ofal plant yn ardal Conwy a'r cyffiniau.<br>Estynnodd y prosiect oriau 2 gydlynydd gwirfoddolwyr i recriwtio a hyfforddi mwy o wirfoddolwyr a gwella'r gefnogaeth i wirfoddolwyr presennol. Mae gwirfoddolwyr yn cynnal ymweliadau cartref a chefnogaeth dros y ffôn, gan dderbyn pecyn hyfforddi a chefnogaeth gynhwysfawr i'w galluogi i wneud hynny. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Uned Diogelwch Cam-Drin Domestig (Gogledd Cymru)** |
| **Dyfarniad** | **£24,132** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cynyddu capasiti gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc gan 20 awr yr wythnos a darpariaeth cwnsela gan 10 awr yr wythnos, er mwyn cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn well, gan:<br>• Sicrhau gostyngiad yn y rhestrau aros presennol, ddarparu cefnogaeth amserol, wedi'i llywio gan drawma i'r rhai sydd â'r angen mwyaf<br>• Cynnig mwy o sesiynau un-i-un i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig.<br>• Cynnig mwy o gefnogaeth therapiwtig i oedolion sydd wedi goroesi cam-drin domestig |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Clwb Pêl-droed Cyffordd Llandudno** |
| **Dyfarniad** | **£25,000** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Datblygiad y clwb pêl-droed, o recriwtio a hyfforddi mwy o wirfoddolwyr hyd at ddarparu nodweddion diogelwch, megis teledu cylch cyfyng a llifoleuadau, a gwaith hyrwyddo gwell, ar y safle ac ar-lein |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Clwb Cymunedol Cyffordd Llandudno** |
| **Dyfarniad** | **£1,000** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Darparu arolwg cyflwr adeilad i lywio a chefnogi cais i'r Loteri Genedlaethol. |

| Sefydliad | Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu |
|---|---|
| **Dyfarniad** | **£16,000** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Mae 'Diwrnod i Mi' yn galluogi datblygiad cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Mae'r cynlluniau hyn yn hyblyg, gyda disgwyliad y gall pobl adeiladu arnynt a'u haddasu. Gallai cynllun gynnwys:<br>• Hoffterau / cas bethau / galluoedd / awydd i roi cynnig ar bethau newydd / gwaith yr unigolyn<br>• Pwy maen nhw eisiau bod, beth a phwy sy'n bwysig iddynt<br>• Efallai y bydd ffrindiau / teulu eisiau cyfrannu neu gefnogi eu cynllun.<br>• Sut y gallant gyfranogi orau yn eu cymuned i wneud pob diwrnod yn Ddiwrnod iddyn Nhw? |

| Sefydliad | Hosbis Dewi Sant |
|---|---|
| **Dyfarniad** | **£18,602** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Creu templed ar gyfer gwasanaeth manwerthu hosbis trwy fewnbwn marchnatwr gweledol. Bydd hyn yn cael ei gymhwyso i ddwy siop yn ystod amserlen cefnogaeth y grant, allan o'r 12 siop a chaffi o fewn y sefydliad. Bydd staff a gwirfoddolwyr yn cael eu huwchsgilio mewn gwerthiannau manwerthu hefyd. Yn gyffredinol, disgwylir i hyn drawsnewid amgylchedd y siop a'r profiad siopa anweledig i'r gwirfoddolwyr ac aelodau'r gymuned, ac i ddenu cefnogwyr a gwirfoddolwyr newydd |

| Sefydliad | Clwb yr Heulwen |
|---|---|
| **Dyfarniad** | **£645** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Taith undydd i Ynys Môn ar gyfer hyd at 49 o bensiynwyr a gwirfoddolwyr o ardal Llansannan. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **TAPE Cerdd a Ffilm Cymunedol** |
| **Dyfarniad** | **£7,000** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Creu ffilm *Supporting Shorts* newydd, prosiect gwneud ffilmiau sy'n canolbwyntio ar sinema, sy'n creu cyfleoedd i bobl heb gynrychiolaeth ddigonol ar draws y diwydiannau sgrin ar hyn o bryd. Mae pob ffilm *Supporting Shorts* yn cael ei chreu gan ddefnyddio cyd-greu manwl, gyda chefnogaeth rhaglen gweithdy bwrpasol. Y gweithdy hwn yw prif ffocws y cais am gyllid. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Clwb yr Efail** |
| **Dyfarniad** | **£10,763** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Darparu prydau bwyd, cwmnïaeth ac ysgogiad meddyliol i bobl dros 65 oed. Cynyddu gwirfoddoli i gynyddu aelodaeth ac felly cynaliadwyedd. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **CIC Antur Gogledd Cymru** |
| **Dyfarniad** | **£5,250** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Nod Ymgyrch Awyr Agored yw cefnogi personél milwrol sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr a'u teuluoedd trwy weithgareddau antur awyr agored diddorol a therapiwtig. Bydd sesiynau gweithgareddau antur hanner diwrnod yn cael eu cyflwyno i feithrin gwydnwch, gwaith tîm, a lles personol. Bydd y gweithgareddau'n cynnwys cerdded ceunentydd, cerdded hafnau, dringo, abseilio, cerdded bryniau, adeiladu rafftiau ac ymarferion adeiladu tîm strwythuredig. |

| Sefydliad | RSPCA Aberconwy |
|---|---|
| **Dyfarniad** | **£20,660** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cefnogaeth i anifeiliaid anwes pobl sy'n wynebu digartrefedd. Roedd y gefnogaeth yn amrywio o wasanaethau milfeddygol i fanc bwyd anifeiliaid anwes. Yn bwysig, ceisiodd y prosiect weithio mewn partneriaeth â thîm tai Cyngor Conwy a phartneriaid i leihau rhwystrau i dai ar gyfer pobl ag anifeiliaid anwes |

| Sefydliad | Ambiwlans Sant Ioan Cymru (Isadran Llandudno) |
|---|---|
| **Dyfarniad** | **£8,161.79** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Ymgyrch recriwtio i gael mwy o wirfoddolwyr. Hyfforddiant i wirfoddolwyr newydd a phresennol, gan gynnwys offer allweddol i alluogi'r hyfforddiant. Gwisgoedd i wirfoddolwyr newydd a phresennol er mwyn lleihau'r rhwystr i ymgysylltu |

| Sefydliad | Gweithredu Cymunedol Abergele |
|---|---|
| **Dyfarniad** | **£24,987** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Gwella cyflogadwyedd a sgiliau bywyd pobl o bob oed sy'n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethu a/neu sydd mewn perygl o gael eu heithrio o gyfleoedd cymdeithasol, addysgol, economaidd a digidol. Gweithio mewn partneriaeth â Hwb Cyflogaeth Conwy. |

| Sefydliad | Sefydliad y Merched Ysbyty Ifan |
|---|---|
| **Dyfarniad** | **£2,770** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Darparu canolfan gynnes gyda gweithgareddau a sesiynau ioga cadair i bobl mewn cymuned wledig. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **CIC Wintergreen** |
| **Dyfarniad** | **£8,910** |
| **Trosolwg byr o’r prosiect** | Datblygu menter wirfoddol i gefnogi cyflwyniad rhaglen Celf a Llesiant Cyn-filwyr. Nod hyn oedd gwella darpariaeth a chynaliadwyedd y rhaglen. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Gofal a Rhannu Aberconwy** |
| **Dyfarniad** | **£5,000** |
| **Trosolwg byr o’r prosiect** | Prosiect i drawsnewid derbynwyr gwasanaethau yn wirfoddolwyr. Datblygu gwefan sefydliadol. Cymorth yn ystod gwyliau i deuluoedd sy’n derbyn prydau ysgol am ddim. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Dwygy Dashers** |
| **Dyfarniad** | **£2,171.90** |
| **Trosolwg byr o’r prosiect** | Recriwtio a hyfforddi arweinwyr rhedeg gwirfoddol, gan gynnwys rhedwyr tywys i gefnogi rhedwyr â nam ar eu golwg. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Radio Bayside** |
| **Dyfarniad** | **£7,200** |
| **Trosolwg byr o’r prosiect** | Cyflwyno Un Sain, Un Gymuned “*Uno pobl, lle a chyfle*” drwy gefnogi costau darlledu am 6 mis. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Bys a Bawd Pawb** |
| **Dyfarniad** | **£25,000** |
| **Trosolwg byr o’r prosiect** | Arolygon a gwasanaethau cymorth ynghylch prynu siop lyfrau Cymraeg hynaf Cymru fel adnodd ac ased i’r gymuned. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Cam wrth Gam Gogledd Cymru** |
| **Dyfarniad** | **£28,600** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Darparu 500 o sesiynau cwnsela proffesiynol un-i-un i oedolion sydd wedi goroesi cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod. Hefyd, recriwtio a goruchwylio 2-4 o gwnselwyr gwirfoddol er mwyn hwyluso eu hachrediad |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Clwb Rygbi Nant Conwy** |
| **Dyfarniad** | **£14,300** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cam dichonoldeb terfynol ar gyfer sefydlu cynllun ynni dŵr cymunedol. Yn rhan o ymgyrch y clwb tuag at sero net a chynaliadwyedd |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Caru Dolgarrog** |
| **Dyfarniad** | **£2,270** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cinio Nadolig Caru Dolgarrog i rai dros 70 oed a the a choffi cymunedol ar gyfer canmlwyddiant Trychineb yr Argae. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Cymdeithas Cŵn Defaid Rhyngwladol** |
| **Dyfarniad** | **£8,000** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cyfraniad at gostau Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru, a gynhaliwyd yng Nghonwy am y tro cyntaf ers dros 30 o flynyddoedd. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Merched y Wawr Penmachno** |
| **Dyfarniad** | **£2,325** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Taith undydd i Ynys Môn ar gyfer 50 o aelodau a ffrindiau'r Wawr, gan alluogi menywod o bob oed i gymdeithasu ar draws y bwlch rhwng y cenedlaethau. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Clwb Rotari Dyffryn Conwy** |
| **Dyfarniad** | **£6,155** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Sioe Tân Gwyllt Llanrwst (3 Tachwedd 2025) a Chystadleuaeth Cerddor Ifanc (7 Tachwedd 2025). |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Cyngor Tref Llanwrst** |
| **Dyfarniad** | **£4,500** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Gŵyl Dafydd ap Siencyn ar 30 Awst 2025. Roedd Dafydd ap Siencyn yn frodor o Ddyffryn Conwy yn y bymthegfed ganrif - gwrthryfelwr, uchelwr a bardd. Mae'r digwyddiad hwn, sy'n addas i deuluoedd, yn dathlu hanes, natur a diwylliant Llanrwst trwy gerddoriaeth fyw, perfformwyr, adroddwyr straeon, saethyddiaeth, crefftau coetir, stondinau marchnad, a mwy. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Llanfywio** |
| **Dyfarniad** | **£25,000** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cyfraniad at ffioedd proffesiynol a chyflog cydlynydd prosiect ar gyfer caffael safle hen ysgol i greu tai fforddiadwy a thirlunio'r safle i ddarparu amwynderau cymunedol. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Pellenig** |
| **Dyfarniad** | **£10,000** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Darpariaeth cyfres o ddigwyddiadau a gweithdai antur awyr agored lleol i blant, pobl ifanc ac oedolion yng Nghonwy Wledig. Cyfle i roi cynnig ar nifer o weithgareddau y gellir eu gwneud yn lleol, megis cerdded afonydd, dringo mynyddoedd, cerdded iseldiroedd, dringo, abseilio, padlo a beicio mynydd. Bwriad y fenter yw mynd i'r afael â thlodi cyfleoedd mewn ardaloedd gwledig trwy ddysgu sgiliau megis darllen mapiau, cynnal a chadw beiciau a sgiliau goroesi yn y mynyddoedd, a fydd yn parhau i helpu cyfranogwyr y tu hwnt i oes y gefnogaeth a ariennir. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Cyngor Cymuned Betws-y-coed** |
| **Dyfarniad** | **£1,400** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Estyniad o brosiect cydweithredol rhwng y cyngor cymuned a'r ysgol i alluogi pensiynwyr i fwyta cinio yn yr ysgol o bryd i'w gilydd. Bydd yr estyniad yn darparu te prynhawn a chinio Nadolig i holl bensiynwyr y pentref, gan ymestyn y profiad cyd-fwyta a mynd i'r afael ag unigedd ac ynysigrwydd. |

| **Sefydliad** | **Golygfa Gwydyr** |
|---|---|
| **Dyfarniad** | **£7,726.67** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Bydd prosiect Coedwig Gymunedol Golygfa Gwydyr yn darparu:<br>• Gweithgareddau lles a diwylliannol ar safle'r goedwig ac adeilad cymunedol yn Llanrwst<br>• Meithrin cysylltiadau â BIP Betsi Cadwaladr i ddatblygu atgyfeiriadau presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer y cynnig lles<br>• Cynnal a chadw safle coedwig gymunedol Caerdroia |

| **Sefydliad** | **Amgueddfa Syr Henry Jones** |
|---|---|
| **Dyfarniad** | **£9,736** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cyfres o weithdai a gweithgareddau rhyng-genhedlaeth dwyieithog oedd y prosiect, gyda chwe llinyn iddo:<br>• Datblygu gardd fwytadwy a gorsaf baill y tu allan i'r amgueddfa<br>• Prosiect cerameg ar gyfer cymuned ehangach Llangernyw, Gwytherin a Phandy Tudur<br>• Sesiynau hanes / archaeoleg Cymru<br>• Ymestyn mynediad i'r amgueddfa am ddau ddiwrnod yr wythnos yn ystod chwe wythnos gwyliau'r haf (cyflog i berson blaen tŷ)<br>• Mewn partneriaeth â Chasgliad y Werin Cymru, gwneud galwad gymunedol am hen ffotograffau ac eitemau lleol i'w sganio<br>• Artistiaid preswyl i weithio gyda theuluoedd yn ystod gwyliau ysgol yr haf a hanner tymor |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Clwb Pêl-droed Rhos United** |
| **Dyfarniad** | **£8,800** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cefnogaeth i logi caeau ar gyfer gemau ac ymarfer oherwydd llifogydd y cae lleol yn y gaeaf. Mae'n cefnogi 6 thîm cymunedol, gan gynnwys tîm pêl-droed cerdded 'Relics', ynghyd â sesiwn galw heibio a chwarae i blant ar ddydd Sadwrn. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Parkrun UK** |
| **Dyfarniad** | **£4,000** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Costau sefydlu Parkrun Llandrillo-yn-Rhos |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Neuadd Gymunedol Llanfairfechan** |
| **Dyfarniad** | **£15,200** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cyfraniad at gyflog Rheolwr Datblygu i barhau i weithio ar gynaliadwyedd y Neuadd Gymunedol. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Menter Iaith Conwy** |
| **Dyfarniad** | **£18,489.52** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cyfraniad at brosiect Partneriaeth Tai Penmachno |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Canolfan Addysg Uwchaled** |
| **Dyfarniad** | **£581** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Te prynhawn i bobl dros 65 oed yng Ngherrigydrudion |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Côr Cymysg Dyffryn Conwy** |
| **Dyfarniad** | **£923.71** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cefnogaeth i gyngerdd cymunedol yn Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Llandudno |
| | |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Clwb Cyfeillgarwch Deganwy** |
| **Dyfarniad** | **£900** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Digwyddiad Nadolig cymunedol |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Banc Hylendid Abergele** |
| **Dyfarniad** | **£430** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cymorth i brynu cynhyrchion hylendid i'w dosbarthu i bobl sy'n profi tlodi hylendid. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Geidiau Llanwrst** |
| **Dyfarniad** | **£981** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cefnogaeth i gynaliadwyedd drwy dalu biliau ynni am 6 mis. |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Clwb Ffilmiau Trefriw** |
| **Dyfarniad** | **£700** |
| **Trosolwg byr o'r prosiect** | Cinio Nadolig a dangosiad ffilm i'r gymuned. |

## Atodiad D – Crynodeb adborth o'r gynhadledd

*Ffynhonnell: Gwybodaeth monitro prosiectau CCGC*

1. Sut fyddech chi'n graddio'r Gynhadledd Trydydd Sector (n=35)

| Gradd | Nifer (canran) yr ymatebion |
|---|---|
| 5 | 24 (69%) |
| 4 | 9 (26%) |
| 3 | 1 (3%) |
| 2 | 1 (3%) |
| 1 | 0 |

Noder: Mae gwall talgrynnu yn golygu nad yw canrannau'n cyfateb i 100%

2. Beth oeddech chi'n ei hoffi am y Gynhadledd Trydydd Sector? (n=35)

| |
|---|
| Al |
| Ariannu teg, siarad â'r loteri a ffermydd gwynt a lleoedd eraill |
| Llawer o rannu gwybodaeth a rhwydweithio |
| Sgyrsiau proffesiynol |
| Pynciau gwych, cyflwynwyr gwybodus iawn. Hefyd yn ffordd wych o gysylltu â sefydliadau trydydd sector eraill yn yr ardal a rhannu syniadau a meithrin perthnasoedd. |
| Rhannu syniadau a'r rhwydweithio gwych |
| Roedd yn ardderchog gyda llawer o gynnwys defnyddiol, gweithdai amrywiol a digon o amser wedi'i neilltuo ar gyfer rhwydweithio. Diolch i'r holl dîm yn CCGC am gynnal digwyddiad mor wych - fe'i gwerthfawrogais yn fawr. |
| Amrywiaeth y sesiynau |
| Amrywiaeth o bynciau diddorol, ac roedd yr arddangosfa hefyd yn ddefnyddiol iawn |
| Roedd digon o sgyrsiau addysgiadol a llawer o stondinau gwybodaeth. |
| Ardderchog o ran lleoliad, cyfleoedd rhwydweithio, cyfleoedd hyfforddi a theimlo'n rhan o drydydd sector y sir yn gyffredinol. |
| Cyfle gwych i gymryd rhan mewn gweithdai sy'n ddefnyddiol i'n sefydliad. Rhwydweithio gwych a chyfle i gwrdd â chyllidwyr |
| Y gweithdai |
| Roedd y sgyrsiau a'r cyfleoedd rhwydweithio yn wych |
| Yr holl bynciau'n berthnasol iawn. |
| Roedd y sesiwn Strategaeth Gwirfoddoli yn wych yn y bore |
| Cael cyfarfod â phobl a chwmnïau lleol. |

| |
|---|
| Cyfle i rwydweithio â phartneriaid o'r un anian, cyfle i weld pobl wyneb yn wyneb (!), sesiynau diddorol iawn fel arfer |
| Gwnaed argraff arnaf i gan ba mor fawr oedd y digwyddiad o ran nifer y stondinwyr, sesiynau cydamserol a'r mynychwyr. Roeddwn i'n meddwl bod amrywiaeth y sesiynau yn dda iawn. |
| Y bobl a'r trefniadau, gwych |
| Y gwahanol grwpiau a gynrychiolwyd yn y digwyddiad. Roeddwn i'n teimlo bod y rhyngweithio i lawr grisiau yn werthfawr iawn |
| Llawer o bobl o bob rhan o'r trydydd sector. Rhai sgyrsiau diddorol. Bwyd da! |
| Hael iawn - pawb oedd yno, a'r pethau am ddim a roddwyd |
| Lleoliad rhagorol wedi'i gynnal yn dda; cyflwyniadau perthnasol da. |
| Roedd wedi'i gynllunio a'i drefnu'n dda. Roedd hefyd yn berthnasol i'r hyn sydd o ddiddordeb i mi |
| Ystod eang o arddangoswyr a gweithdai |
| Ystod o sesiynau - cyfleoedd i rwydweithio |
| Roeddwn i wrth fy modd â'r gwahanol seminarau a gynigiwyd, ynghyd â'r cyfle i rwydweithio â phobl o'r un anian |
| Y gweithdai - roedd yr un AI ar gyfer ceisiadau am grantiau yn hynod o ddiddorol. |
| Sesiynau amserol - yn wirioneddol ddiddorol |
| Llwyddais i gael llawer o wybodaeth ar gyfer sawl grŵp/sefydliad rwy'n ymwneud â nhw, ac roedd staff CCGC, fel bob amser, yn barod iawn eu cymorth ac yn gallu cynnig llawer o gyngor a gwybodaeth. |
| Roedd y gwahanol sesiynau'n wych, y stondinau a chael cyfle i sgwrsio â'r gwahanol ddarparwyr, roedd y cinio yn flasus iawn, y rhwydweithio o amgylch y byrddau amser cinio.<br>Roeddwn i'n falch bod y stondinau i gyd wedi cau amser cinio i roi seibiant i bawb.<br>Diolch! |
| Y posibilrwydd i gyfarfod â sefydliadau o'r un anian i gydweithio a dysgu oddi wrth ein gilydd. |
| Cyfle gwych i wneud cysylltiadau lleol newydd a dysgu gan y sector ehangach ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt |
| Sgyrsiau diddorol. Cyfle gwych i rwydweithio. Dathliad o'r trydydd sector yng Nghonwy |

3. Sut allem ni wella'r Gynhadledd Trydydd Sector? (n=33)

| |
|---|
| Bod yn graffach ynglŷn â gweiddi'n uwch ar Lywodraeth Cymru, y GIG a chyrff statudol eraill am y gwaith y mae'r sector trydydd sector yn ei wneud i'w cefnogi. Mae angen mwy o gydnabyddiaeth. |
| A bod yn blwmp ac yn blaen, roedd trefniadaeth y digwyddiad yn warthus. Dim agenda, dim byd i ddweud beth i'w ddisgwyl, dim byd i ddweud pa sesiynau hyfforddi oedd ymlaen a phryd. Dim byd i ddweud pwy oedd yn y ffair gyllido. Doeddwn i ddim yn gallu cynllunio fy amser gan nad oedd gen i unrhyw syniad ymlaen llaw pa sesiynau oedd yn digwydd. Fe ddylech chi weithredu system archebu ar gyfer y sesiynau, fel fy mod yn gwybod yn union faint o'r gloch mae angen i mi fynd, neu hyd yn oed anfon y daflen neu'r agenda allan ymlaen llaw. Oedd, roedd wedi'i gynnwys yn y bag, ond mae hynny ar y diwrnod, ac edrychais yn y bag, a oedd yn cynnwys y pethau arferol mewn digwyddiad, felly wnes i ddim hyd yn oed meddwl edrych yn y llyfryn. Roedd fel petai wedi'i drefnu a'i reoli'n wael. |
| Mwy o rannu gwybodaeth, gwych |
| Alla i ddim meddwl. Roedd yn dda. |
| Mwy o sesiynau rhwng seibiannau - roedd hi'n eithaf anodd dewis pa sesiynau i'w mynychu a byddwn i wedi hoffi gallu gwneud mwy - pe baent wedi dechrau'n gynharach a chael cinio ychydig yn fyrrach yna gallem fod wedi cael dwy sesiwn rhwng yr egwyliau er mwyn ffitio mwy i mewn. |
| Ailadrodd sesiynau i osgoi colli allan oherwydd gwrthdaro. |
| O bosibl gofyn am ragor gan hwyluswyr y gweithdai i fod â dolenni i offer a thempledi ac adnoddau y gall mynychwyr fynd â nhw oddi yno a'u defnyddio. Mae mor ddefnyddiol pan fydd y rhain wedi'u cynnwys. |
| Dim problemau gwirioneddol felly ni allaf roi unrhyw sylwadau yn yr adran hon |
| Amnewid y cyflwyniadau fel eich bod yn gallu mynychu pob un. |
| Roedd yn well gen i daflen amserlen A4 y llynedd yn hytrach na gorfod gweithio fy ffordd drwy'r llyfryn i gynllunio fy niwrnod neu wirio enw'r ystafell ac ati. Roedd y llyfryn yn hyfryd ond yn gost ddiangen. |
| Roedd yr holl weithdai yn teimlo fel eu bod angen ychydig mwy o amser arnynt, o bosibl caniatáu awr lawn fesul gweithdy a chael amser wedi'i neilltuo ar gyfer stondin dros ginio a dechrau'r dydd? |
| Byddwn wedi hoffi mynychu mwy o sgyrsiau drwy gydol y dydd ond gan eu bod ymlaen ar yr un adeg roedd hyn yn anodd. Roedd pob un o sgyrsiau'r bore o ddiddordeb i mi. Efallai y byddai cael slot amser ychwanegol ar gyfer y sgyrsiau yn fuddiol ac yn galluogi pobl i fynychu mwy. |
| Anodd dweud. Dyma'r trydydd tro i mi fynychu. Braf bod rhywun yn 'meddwl drosta i' 😊 |

| |
|---|
| Byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael un dudalen o amseriadau ar gyfer y diwrnod ar ddechrau'r rhaglen |
| Dim i'w wella |
| Elfen fach ond - er bod eleni yn welliant ar fyrger a sglodion y llynedd - a fyddech chi'n ystyried cinio iachach a llai trwm mewn carbohydradau? Rwy'n credu y gallai helpu pobl i deimlo'n fwy effro yn sesiynau'r prynhawn. |
| Mae rhai cynadleddau rwy'n eu mynychu y dyddiau hyn sy'n fy nghyffwrdd ac yn aros gyda mi yn cynnwys rhyw fath o ddiwylliant. Efallai rhywfaint o gerddoriaeth Gymraeg leol, celf ryngweithiol, barddoniaeth... |
| Dim byd! |
| Nid yw'r fformat pobl ar lwyfan yn siarad â mi yn cyd-fynd â'r rhyngweithio y byddwn yn ei hoffi. Rwy'n ffafrio dull llai ffurfiol yn bersonol. |
| Ddim yn siŵr |
| Gwnewch i'r stondinwyr aros tan yr amser sydd ar yr amserlen |
| O bosibl mwy o hysbysiad o amseroedd a chynnwys y cyflwyniadau (tudalen we?) fel y gallai ymwelwyr ddewis cwrdd â'r cyrff ariannu neu ymwelwyr eraill rhwng cyflwyniadau o'u dewis (er eich bod wedi gwneud hyn i raddau helaeth). |
| Cadwch y safon a'r ymrwymiad i gynnal ansawdd |
| Hoffwn fod wedi cael rhestr o gyfranogwyr a'r sefydliadau yr oeddent yn eu cynrychioli |
| Roedd yn drueni bod y niferoedd yn lleihau yn y prynhawn ond dydw i ddim yn credu y gallwch osgoi hynny |
| O bosibl deunyddiau dysgu o bob sesiwn i fod ar gael. Roedd yn rhaid i mi ddewis rhwng dwy sesiwn wahanol (y ddwy ar yr un pryd) felly byddwn wedi hoffi cael y nodiadau o'r sesiynau a gollais. |
| Efallai annog siaradwyr i beidio â gwneud sesiynau casglu gwybodaeth yn unig – chefais i ddim byd allan o'r gweithdy dull newydd ar gyfer gwirfoddoli. |
| Roedd yn wych - mae'r egwyliau ychydig yn hir |
| O bosibl, mwy o sefydliadau neu grwpiau llai yn cynnal stondinau gwybodaeth. |
| Posteri ar y wal gyda'r agenda arnynt. Mae'n ddrwg gen i os ydych chi eisoes wedi gwneud hyn ac na welais i nhw. Fe wnes i godi taflen, felly roedd hynny'n wych. Diolch |
| Noddwyr i adael taflenni yn eu hystafell noddedig cyn y sgwrs gyntaf. |
| Dim byd! Dyma'r digwyddiad gorau rwy'n ei fynychu ar draws y rhanbarth bob amser ac rwy'n edrych ymlaen ato bob blwyddyn - daliwch ati gyda'r gwaith gwych i gyd. |
| Diolch! Sgyrsiau byrrach a mwy ohonynt. Efallai eu hailadrodd fel y gallwn fynychu mwy ohonynt. |

4. Ydych chi'n mynd i wneud unrhyw beth yn wahanol o ganlyniad i'ch dysgu o'r Gynhadledd Trydydd Sector? (n=34)

| |
|---|
| Bod yn fwy ymwybodol o AI |
| Nac ydw. |
| Ydw, cynllun cyfryngau cymdeithasol |
| Yndw. Strategaeth Gwirfoddoli. |
| Ydw - byddaf yn mynd ar drywydd perthnasoedd corfforaethol yn fwy |
| Ydw, defnydd AI mewn llywodraethu |
| Byddaf yn rhannu'r hyn a ddysgais o'r gweithdy Strategaeth Gwirfoddoli gyda chydweithwyr a grwpiau cymunedol. |
| Ydw, edrych mewn i ddefnyddio AI ar gyfer helpu i lenwi ffurflenni cais am grant. Edrych ar ffynonellau incwm eraill, a gwella cyhoeddusrwydd ar blatfformau cymdeithasol |
| Ydw |
| Ydw, byddaf yn gallu creu gwell ceisiadau am gyllid. |
| Byddaf yn gwneud defnydd o'r awgrymiadau defnyddiol ar fy mhostiadau cyfryngau cymdeithasol o'r gweithdy gwych gan Abigail Gilbert. |
| Ydyn, fe gawson ni lawer allan o'r gweithdai ar thema ddigidol y gwnaethom eu mynychu, mae wedi ein helpu i gael gweledigaeth gliriach o sut y gallwn symud ymlaen a defnyddio technoleg newydd. Rydw i wedi archebu lle ar gwrs gweithleoedd digidol o ganlyniad i weithdy Promo Cymru a gobeithio y bydd hyn yn ein helpu i redeg yn fwy effeithlon a chynyddu ymgysylltiad. Roedd y gweithdy cyfryngau cymdeithasol hefyd yn werthfawr iawn ac mae wedi rhoi man cychwyn i mi wella ein hymgysylltiad. |
| Rhoi dysgu newydd ar waith yn fy ymarfer yn seiliedig ar yr hyn a ddysgais yn y gweithdai. |
| Rydw i'n newydd yn fy rôl felly mae'n anodd dweud ond byddaf yn ystyried popeth rydw i wedi'i ddysgu wrth ddechrau'r swydd. |
| Ydw. Rydw i nawr yn dilyn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Hefyd, byddaf yn mabwysiadu'r canllawiau ar y Dull Newydd ar gyfer Gwirfoddoli. |
| Rydym yn mynd i weithredu strategaeth gwirfoddolwyr i'n sefydliad. |
| Yndw |
| Rydw i wedi ymgysylltu â phartneriaid newydd y byddaf yn gweithio gyda nhw yn y dyfodol. |
| Rydw i wedi pasio peth o'r dysgu allweddol ymlaen i gydweithwyr a, rhwng pawb ohonom, rydw i'n disgwyl y caiff rhywfaint o ddylanwad. |
| Cyfathrebu mwy am ein gwaith i'n helpu ni, helpu sefydliadau grantiau, helpu grwpiau eraill fel ni. |
| Roedd cynnwys gwerthfawr a defnyddiol yr wyf yn ei ystyried a byddaf yn sicr yn archwilio'r defnydd gorau a mwyaf effeithiol o gyfryngau cymdeithasol. |
| Na |
| Ydw |

| |
|---|
| Mae'r gynhadledd a'r arddangosfa yn adeiladu ar flynyddoedd o brofiad ynghyd â'n profiad ni, felly rwy'n bwriadu dilyn i fyny gyda thrafodaethau â sefydliadau cyswllt y gwnaethom gyfarfod â nhw. |
| Ydw, mwy o gynllunio cyn gweithredu |
| Rwy'n teimlo'n fwy gwybodus am y goblygiadau gwleidyddol posibl ar gyfer etholiadau'r Senedd y flwyddyn nesaf, diolch |
| Ydw. Mae wedi rhoi dull gwahanol i mi o godi arian a hefyd rhywbeth i feddwl amdano o ran a'i CIC yw'r llwybr cywir i mi. |
| Ydw - rydym yn ail-edrych ar ein polisïau AI. |
| Ydw, cyllidebu ac ymarfer AI |
| Yn sicr! |
| Cefnogaeth iechyd meddwl i'm cydweithwyr |
| Rydym wedi gwneud cysylltiadau newydd a byddwn yn dechrau cydweithio â phartneriaid newydd. |
| Cysylltu mwy â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mewn perthynas â dylanwadu ar a llywio polisi Llywodraeth Cymru o gefnogi'r sector |
| Ddim yn siŵr |

5. Beth allai CCGC ei wneud yn well i gefnogi eich sefydliad? (n=32)

| |
|---|
| Cyswllt rhanbarthol i gefnogi mentrau lleol. |
| Cael elusen / sefydliad yr wythnos a'i hysbysebu yn y cylchlythyrau / cyfryngau cymdeithasol |
| Cydweithio ar gyfer digwyddiadau, gweithio gyda'n gilydd, codi ein proffil gyda dathliad 150 mlynedd i ddod yn fuan |
| Rhwydwaith bach o fentrau gwledig Cymreig. |
| Cyngor ar wirfoddolwyr a chefnogaeth gyda chydlynu. Cyngor ar gyllido |
| Dim byd, rwy'n hapus iawn gyda'r gefnogaeth rydych chi'n ei darparu |
| Amherthnasol |
| Dim byd, y gefnogaeth yn dda |
| Ddim yn siŵr. |
| Daliwch ati i gefnogi hysbysebu cyfleoedd recriwtio i ni. Cadwch y cyfleoedd hyfforddi perthnasol o ansawdd da megis y cwrs rheoli gwirfoddolwyr 3 diwrnod. Mae angen hyfforddi rheolwyr gwirfoddolwyr newydd i'r rôl a dylai fod yn gynnig blynyddol. Parhewch i hyrwyddo wythnos Gwirfoddolwyr gan eich bod chi'n gwneud mor dda. |
| O bosibl cynnig mwy o hyfforddiant ond mae'r gefnogaeth a gynigir ar hyn o bryd yn ddefnyddiol iawn |
| Amherthnasol |
| Ddim yn gwybod gan ein bod yn newydd |
| Anodd dweud. Nid yn unig mae aelodaeth CCGC am ddim ond mae'n cynnig ystod eang o fuddion. |
| Rydym yn cael ein cefnogi'n dda gan CCGC |
| Dim |
| Amherthnasol |
| O bosibl, mwy o ddigwyddiadau rhwydweithio i helpu i adeiladu partneriaethau gwych er mwyn helpu i wneud cais am gyllid a denu cefnogaeth gorfforaethol. |
| Gwrando ar ein profiadau a chreu newidiadau addas a phwrpasol |
| Rwy'n credu bod CCGC yn gwneud yn dda iawn yn ein helpu. Efallai y byddai mwy o wybodaeth am yr hyn rydych chi'n ei wneud allan yna yn wych. |
| Ddim yn gwybod |
| Deall anghenion eglwysi unigol yn ogystal ag ardal y weinidogaeth |
| Mae CCGC eisoes yn dda; weithiau mae'r gwaith i gwblhau rhannau o brosiect y tu hwnt i wirfoddolwr h.y. lle mae cais am grant mewn prosiect yn gofyn am gais cynllunio a mapiau ac ati. |
| Mae'n gwneud yn iawn |
| Amherthnasol |
| Mwy o fewnwelediad ynghylch sut y gallaf redeg clwb pêl-droed yn effeithiol |
| Dim byd - mae'r tîm yn wych |
| Dim byd |
| Roedd y gynhadledd yn wych, ond efallai mwy ond hyfforddiant agored llai - lle gallwch fynychu sesiwn ar gyfer rhywbeth penodol. Yn anffodus, doeddwn i ddim yn gallu mynd i'r holl sesiynau roeddwn i eisiau oherwydd bod rhai ymlaen ar yr un pryd. |
| A allech chi ein cysylltu â Chyngor Sir Castell-nedd Port Talbot? Byddem wrth ein bodd yn eu cefnogi nhw hefyd. |
| Ychwanegwch fi at eich rhestr bostio os gwelwch yn dda |
| Hyfforddiant, mwy o ddigwyddiadau, rhwydweithio, gwell gwybodaeth am gyllido |

6. Pa hyfforddiant hoffech chi ei weld yn y dyfodol (e.e. Diogelu, Rheoli Gwirfoddolwyr, Goruchwylio Gwirfoddolwyr, Ceisiadau am Gyllid, Rôl y Trysorydd, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant)? (n=27)

| |
|---|
| Ceisiadau am gyllid |
| Diogelu, ymgysylltu pobl ar-lein, rheoli gwirfoddolwyr, ymgysylltu â'r gymuned leol |
| Hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol |
| Rôl trysorydd. |
| Rheoli gwirfoddolwyr, ceisiadau am gyllid |
| Hyfforddiant ar gyfer rôl benodol, yn enwedig trysorydd. |
| Cryfhau Eich Bwrdd, Rheoli Gwrthdaro ar Fyrddau, Rheoli Risg / Diogelu Eich Elusen, ac mae'r holl bynciau rydych chi'n eu hawgrymu uchod yn swnio'n ardderchog. |
| Ceisiadau am gyllid, mwy ar ddefnyddio AI |
| Diogelu, goruchwylio gwirfoddolwyr a rhesymoli ceisiadau cyllido |
| Ceisiadau am gyllid. Rôl y Trysorydd. |
| Rheoli Gwirfoddolwyr, Goruchwylio Gwirfoddolwyr, Ceisiadau Cyllido, cyfryngau cymdeithasol ar gyfer amaturiaid, rheoli gwirfoddolwyr yn canolbwyntio ar reolwyr siopau elusen. |
| Diogelu a Chyllido |
| Y cyfan o'r uchod – collais y sesiynau sefydlu CIC a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer y trydydd sector, byddwn i wedi hoffi mynychu'r ddwy. |
| Y cyfan o'r uchod. Bod yn Sefydliad sy'n Wybodus am Drawma a rhywbeth tebyg i Uno Elusennau os gwelwch yn dda. Cael Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru eto os gwelwch yn dda. |
| Unrhyw beth sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr |
| Ceisiadau cyllid |
| Cyllid Gwyrdd |
| Diogelu yn bendant, Cynhwysiant, ceisiadau cyllid, cadw i fyny gyda diweddariadau |
| Hoffwn weld sesiwn ar ofalwyr cudd. Y criw o ofalwyr nad ydynt yn ymddangos yn yr ystadegau. Plant yn gofalu am rieni neiniau a theidiau ac ati.<br>Hoffwn i CCGC wneud mwy i amlygu lle mae diffyg cefnogaeth. |
| Goruchwyliaeth / cefnogaeth i wirfoddolwyr |
| Y rhestr gyfan |
| Ceisiadau am gyllid. Hyfforddiant yn ymwneud â rôl clybiau chwaraeon fel sefydliadau trydydd sector (rwy'n gweithio gyda sefydliad clybiau pêl-droed) |
| Mwy ar wirfoddoli corfforaethol. |
| Ceisiadau am gyllid, Rheoli Gwirfoddolwyr, Ymgysylltu â'r Gymuned |
| Rheoli Gwirfoddolwyr, Goruchwyliaeth ar gyfer Gwirfoddolwyr, Ceisiadau am Gyllid, Rôl y Trysorydd |
| Byddai'r cyfan o'r uchod, heblaw am yr hyfforddiant Trysorydd a Cheisiadau am Gyllid, yn berthnasol i ni. |
| Rheoli gwirfoddolwyr, cyllido |

## Atodiad E – Crynodeb o waith dilyn i fyny newid ymddygiad cynrychiolwyr y gynhadledd

*Ffynhonnell: 20 Degrees*

Atgoffwyd yr ymatebwyr o'r hyn yr oeddent wedi bwriadu ei wneud yn dilyn y gynhadledd a gofynnwyd iddynt beth yr oeddent wedi'i wneud.

| **Newid ymddygiad a fwriadwyd** | **Newid ymddygiad a ddigwyddodd** |
|---|---|
| AI - bod yn fwy ystyriol o AI | Teimlais fod y sesiwn AI yn ddefnyddiol iawn ar lefel bersonol. Roedd y gefnogaeth ynghylch gramadeg a chyfathrebu ysgrifenedig yn arbennig o werthfawr. Gan mai Cymraeg yw fy iaith gyntaf a bod y rhan fwyaf o'm gwaith yn cael ei wneud yn Saesneg, mae'n aml yn cymryd ychydig o amser ychwanegol i mi brosesu gwybodaeth cyn ymateb i ohebiaeth. Ers defnyddio Copilot, nid drwy'r amser, rydw i wedi gallu cynyddu fy nghynhyrchiant gweinyddol yn sylweddol, ac mae wedi fy helpu i reoli fy nyletswyddau dyddiol yn fwy effeithlon ac aros ar y trywydd iawn. O ran fy ngwaith yn [sefydliad], nid yw AI yn diwallu ein hanghenion yn llawn eto, ond mae ein tîm yn gweithio'n galed i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir gennym yn gywir, yn hygyrch, ac wedi'i fformatio'n gywir bob dydd. |
| Cynllunio cyfryngau cymdeithasol | Rhannais fanylion y sesiwn gyda fy rheolwr, ac rydym yn gobeithio gweithredu rhai newidiadau yn ymwneud â phileri cynnwys a pha blatfformau cyfryngau cymdeithasol rydym yn eu defnyddio. Roedd rhai syniadau defnyddiol ynghylch pa gynnwys y gallem ei ddefnyddio ar gyfer LinkedIn o ran rhannu adroddiadau a sut i ddadansoddi cynnwys a'i ailddefnyddio. |
| Defnyddio AI mewn llywodraethu | Roeddwn i'n teimlo bod yr adran AI yn ddefnyddiol iawn ac rydw i wedi ei ddefnyddio i ddrafftio polisi diogelu newydd. Mae bellach yn nwylo'r pwyllgor i'w wirio'n drylwyr. Byddaf yn gwneud yr un peth gyda gweddill ein dogfennau llywodraethu yn ystod y flwyddyn hon. |
| Bwriadu gwneud rhywbeth yn wahanol (heb ei nodi) | Dim ymateb gan gynrychiolydd |
| Datblygu ceisiadau [cyllido] gwell | Na, neu ddim ar hyn o bryd fyddai efallai'n ffordd well o'i roi. Heb os, rwy'n bendant yn fwy hyderus y byddaf yn gallu gwneud cais am gyllid ar gyfer ein grŵp cefnogi ond dydw i ddim wedi gwneud hynny eto. |

| | |
|---|---|
| Awgrymiadau ar gyfer gweithredu cyfryngau cymdeithasol (SM) | Roedd y gweithdy SM yn chwa o awyr iach i bobl fel fi sydd heb gyllideb ar gyfer ymgyrch recriwtio gwirfoddolwyr, felly mae croeso i unrhyw awgrymiadau a syniadau ar gyfer gwella fy mhresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol yn y gwaith. Rwy'n defnyddio'r ystadegau dangosfwrdd proffesiynol a ddangoswyd i mi gan [hwylusydd y gweithdy] ac rwy'n cynllunio fy nghalendr postio fel yr argymhellodd hi. Fy nymuniad fyddai gweithdy hirach neu ddilyniant ar ôl y digwyddiad i ddefnyddwyr SM llai abl fel fi. |
| Sesiynau ar thema ddigidol | Roeddem yn teimlo bod y gweithdai digidol yn ddefnyddiol iawn, fe wnaethant ein helpu i ddechrau sgyrsiau a oedd yn ffrwtian ynglŷn â diweddaru a dod yn fwy effeithlon yn ddigidol a rhoi hwb i ni ddechrau gwneud rhywbeth yn ei gylch. O ganlyniad uniongyrchol i fynychu'r gynhadledd, rydw i a chyd-gyfarwyddwr wedi cofrestru ar gwrs 9 wythnos gan Promo Cymru; Dylunio Gwasanaethau Digidol, ac rydym yn archwilio sut y gallwn ddefnyddio dulliau digidol i ddod yn well am ledaenu'r gair a marchnata ein gwasanaethau a thrwy hynny greu llif incwm mwy cyson ochr yn ochr ag incwm sy'n seiliedig ar dendrau a grantiau. |
| Rhoi dysgu ar waith | Teimlais fod y cyrsiau a fynychais y diwrnod hwnnw yn addysgiadol ynglŷn â chyfryngau cymdeithasol a gwneud cais am gyllid. Rhoddwyd awgrymiadau defnyddiol yn ystod y ddau weithdy y byddaf yn / yr wyf wedi eu rhoi ar waith. Dim ond rhywbeth bach, ond yn ddiweddar roeddwn i'n creu poster ar gyfer digwyddiad ac edrychais ar wefan a argymhellwyd sy'n dweud wrthych chi a yw cyfuniadau lliw yn gweithio fel y gall pobl eu darllen yn glir ar ôl iddynt gael eu troshaenu. Rhywbeth bach ond fe helpodd fi i wneud fy ngwaith yn hygyrch. |
| Dilyn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a mabwysiadu canllawiau ar ddull newydd o wirfoddoli | Gyda chryn embaras, na. Wedi'i oddiweddyd gan ddigwyddiadau eraill. Byddai trosolwg yn cael ei groesawu. |
| Rhoi dysgu ar waith | Ni wnes ddefnyddio'r dysgu ond llwyddais i feithrin cysylltiadau allweddol. |
| Yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol | Fel Cynghorydd Tref Annibynnol sy'n codi pryderon yn ymwneud â'r ward ac yn rhannu newyddion am ddigwyddiadau sydd o fudd i'r gymuned, rydw i bellach wedi archwilio platfformau eraill y tu hwnt i Facebook ac X o ganlyniad uniongyrchol i'r mewnwelediadau a gefais o'r sesiwn. O ran y Cyngor Tref, adroddais yn ôl i'r Cyngor ar y sesiwn a hoffwn weld [enw cyngor] yn fwy creadigol yn ei ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol. Felly daeth llawer o ysbrydoliaeth o'r sesiwn ac rwy'n ddiolchgar am hynny. |

| | |
|---|---|
| Gwaith dilyn i fyny ar gysylltiadau a wnaed | Mae'r ymatebydd a'i briod yn gynghorwyr tref.<br><br>"Yn fy achos i, yn nigwyddiad CCGC a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd fe wnes gyfarfod ag ymwelwyr eraill gan gynnwys pobl o'r Cyngor Sir a'r Bwrdd Iechyd y mae gen i gysylltiad â nhw. Fe wnes i gyfarfod â'r tîm cyllido chwaraeon yn eu stondin yn y digwyddiad, pobl rydyn ni'n eu hadnabod o'r gwaith a wnaed dros y blynyddoedd, mae ein canolfan chwaraeon [enw] […] yn cael ei rhedeg a'i rheoli gan wirfoddolwyr sy'n gwneud cais am grantiau i gynnal a datblygu'r ganolfan. Yn nigwyddiad CCGC, fe wnes gyfarfod â'r Gronfa Dreftadaeth a doeddwn i ddim yn gwybod cyn y cyfarfod sut mae'r Gronfa Dreftadaeth yn amddiffyn yr amgylchedd; cysylltais â'r tîm eto i gael eglurhad ar ambell i bwynt a throsglwyddais y manylion cyswllt i eraill rwy'n eu hadnabod sydd â diddordeb posibl (rhandiroedd). Fel gwenynwr mae gen i ddiddordeb ac rwy'n pryderu am ein hamgylchedd a'r bygythiad gan rywogaethau ymledol lle gallai cyllid fod yn hanfodol, felly trosglwyddais wybodaeth y Gronfa Dreftadaeth i'r grŵp hwn hefyd. Mae gennym brosiectau i wneud cais amdanynt lle gallai'r Gronfa sy'n tueddu i fod ar gyfer grantiau mwy ffitio, yn [enw] mae gennym bartneriaeth cynllunio lleoedd sy'n edrych i ddatblygu / adfywio ardaloedd gan gynnwys tir agored ar gyfer prosiectau Cynllunio Lleoedd a throsglwyddais fanylion i'r grŵp, yr oedd rhai ohonynt hefyd wedi mynychu digwyddiad CCGC. Yn [enw lle] mae ein cymuned yn dioddef amddifadedd fel y'i mesurir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) ac rydym hefyd yn ardal sydd yn hanesyddol wedi dioddef llifogydd, felly mae datblygiad yn gyfyngedig ac mae cefnogaeth y Llywodraeth yn tueddu i fynd i gymunedau mwy. Mae cyllid grant tebyg i CCGC yn gynyddol bwysig ar draws yr ystod o fesurau cymorth a datblygu cymunedol." |
| Teimlo'n fwy gwybodus am oblygiadau etholiadau'r Senedd | Ni wnes i ddilyn i fyny gan na nodwyd unrhyw gamau gweithredu penodol o'r dysgu. |
| Dull codi arian gwahanol ac ai CIC yw'r llwybr cywir | Teimlais fod cynhadledd CCGC yn hynod fuddiol, ac o ran sut y defnyddiais yr hyn a ddysgais o'r gynhadledd, diolch i'r gweithdai, trafodais gyda'r staff uwch yn [enw] ynghylch ai CIC oedd y llwybr gorau i'r sefydliad ei gymryd. Yn lle hynny, rydym wedi dewis mynd i lawr llwybr CIO ac, o ran codi arian, roedd yn fuddiol dysgu am lwybrau eraill. |

| | |
|---|---|
| Cyllidebu ac AI | Rydw i wedi bod yn gwneud ceisiadau am grant. Roeddwn wedi bod yn defnyddio AI o bryd i'w gilydd ar y rhain yn y gorffennol. Ond ers yr hyfforddiant rydw i wedi gwneud hynny gyda mwy o hyder, nid yn unig ar geisiadau grant, ond gydag eitemau eraill hefyd. Wnaethon ni ddim mynd allan a defnyddio unrhyw un o'r platfformau y soniwyd amdanynt, gan fod gennym ni eisoes Copilot fel rhan o Teams, ond yn dilyn y sesiwn fe ddechreuon ni ddefnyddio hyn ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg, ac mae ein cydweithiwr sy'n Gymraes iaith gyntaf wedi gwirio'r rhain ac yn dweud eu bod yn dda iawn gyda dim ond mân newidiadau eu hangen - mae hyn yn golygu ei bod hi'n aml yn gallu gwneud hyn i ni, sy'n cyflymu'r broses ac yn golygu nad oes rhaid i ni fynd allan at gyfieithwyr am gyfieithiad llawn bob amser, yn enwedig ar eitemau llai / pan fo angen ymateb cyflym. Rydym wedi cael sgyrsiau mewnol, o ganlyniad i'r hyfforddiant, am yr adran gyllidebu ar geisiadau grant, yn enwedig categoreiddio gwasanaethau arbenigol fel rhan o gost y prosiect, a pheidio â cheisio lleihau ein hanghenion cyllidebol er mwyn grantiau, ond yn hytrach, bod yn gwbl realistig fel y gall cyllidwyr grantiau weld bod y rhain yn gadarn - nid oes unrhyw geisiadau newydd wedi bod ers hynny lle byddai hyn yn berthnasol, ond mae'n bendant ar ein radar ar gyfer y dyfodol. Roeddwn i'n meddwl bod hwn yn ddiwrnod da iawn - hyd yn oed yn well na'r un blaenorol. "Cyfredol" dros ben. |

## Atodiad F – Crynodeb o adborth cyfranogwyr digwyddiad hyfforddi

*Ffynhonnell: Gwybodaeth monitro prosiect CCGC*

1. Enw / dyddiad y digwyddiad hyfforddi a fynychwyd (n=36)

| Dyddiad | Digwyddiad | Nifer yr ymatebion gan gyfranogwyr |
|---|---|---|
| 30/09/25 | Cyflwyniad i Reoli Gwirfoddolwyr | 9 |
| 07/10/25 | Gwirfoddoli a'r Gyfraith | 9 |
| 08/10/25 | Goruchwylio Gwirfoddolwyr | 6 |
| 20/10/25 | Cynllunio Busnes | 4 |
| 26/11/25 | Sgiliau Fideo ar gyfer Elusennau | 2 |
| 03/12/25 | Ymgysylltu â'r Gymuned | 3 |
| 20/01/26 | Sut i fod yn Ymddiriedolwr Effeithiol | 3 |

2. Argraff gyffredinol – wedi'u graddio o 1 i 5 seren (n=36)

| Gradd seren | Nifer (canran) yr ymatebwyr |
|---|---|
| 5 | 32 (89%) |
| 4 | 3 (8%) |
| 3 | 0 (0%) |
| 2 | 0 (0%) |
| 1 | 1 (3%)[(a)] |

(a) Atebodd yr ymatebydd hwn 'rhagorol' ar gyfer cwestiynau dilynol, gan awgrymu eu bod wedi dehongli 1 fel y sgôr uchaf, yn hytrach na'r gwaethaf.

3. Yr hyn a deimlais oedd fwyaf defnyddiol am y digwyddiad oedd: (n=35)

| |
|---|
| Rhwydweithio a swm y wybodaeth. |
| Addysgiadol iawn. |
| Roedd y taflenni'n wahanol i'r sleidiau, a oedd yn ddefnyddiol gan eu bod yn rhoi mwy o wybodaeth ac yn cadw sylw pobl. Y sgwrs ar gyfer amrywiaeth o weithwyr proffesiynol. |
| Syniadau recriwtio, hyfforddi a chyfathrebu. |
| Cael y nodiadau hyfforddi i'w hystyried yn ddiweddarach, trafodaeth gyda phobl eraill yno. |
| Popeth. |
| Cwrdd ag eraill mewn rolau tebyg ynghyd â'r cwrs ei hun. |
| Cefnogaeth gan y tiwtoriaid pan ofynnwyd cwestiynau. |
| Atgyfnerthwyd arfer gwirfoddoli da. |
| Y gwahaniaethau rhwng bod â gwirfoddolwyr a gwirfoddolwyr yn dod i mewn. |
| Addysgiadol iawn. |
| Iaith a ddefnyddiwyd, cytundebau, podlediad, dolenni. |
| Cynnwys y cyflwyniad, llawer o wybodaeth dda. |
| Trosolwg o beth yw'r gyfraith, arfer da, canllawiau, cyfeirio. |
| Eglur, cynhwysfawr, wedi'i gyflwyno'n dda. |
| Arfer da, pethau i'w hystyried, rhyngweithio ag eraill. Cyflwyniad rhagorol. |
| Gwybodaeth am y gyfraith. |
| Llawer o sgiliau a thechnegau. |
| Cynnwys perthnasol da. |
| Sut i gyfathrebu'n fwy effeithiol â gwirfoddolwyr, dysgu gan brofiadau pobl eraill. |
| Llawer o wybodaeth ddefnyddiol. |
| Dysgu am yr hyn oedd yn ofynnol gennym i gydymffurfio â'r gyfraith drwy ein hamddiffyn ni a'n gwirfoddolwyr. Pwysigrwydd goruchwylio gwirfoddolwyr |
| Ailymweld ag arfer da. Mae gwrando ar eraill a hynny wyneb yn wyneb yn newid i'w groesawu o gymharu â bod ar-lein. |
| Lefel dda o wybodaeth, addysgiadol iawn |
| Wedi'i anelu at bawb ac yn berthnasol i ni |
| Clir a chryno |
| Trosolwg ac egwyddorion |
| Cyngor ymarferol |
| Creu'r bwrdd stori |
| Camau ymgynghori a phryd i wneud pob elfen wahanol er mwyn cael yr effaith orau |
| Digwyddiad addysgiadol |
| Y templed a'r canllawiau |
| Y sgyrsiau diddorol gyda chyfranogwyr eraill |
| Archwilio rôl yr ymddiriedolwr yn fanwl gyda'r mewnwelediad a ddarparwyd gan fynychwyr eraill |
| Cael esboniad o rôl yr ymddiriedolwyr a'u rhyngweithio â staff |

4. Sut fyddech chi'n graddio'r canlynol:

| **Gradd** | **Y lleoliad** (n=36) | **Lluniaeth** (n=35) | **Siaradwr / hyfforddwr** (n=36) | **Trefniant y digwyddiad** (n=36) | **Amser o'r dydd** (n=36) | **Hyd y digwyddiad** (n=36) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhagorol | 26 (72%) | 26 (74%) | 36 (100%) | 35 (97%) | 30 (83%) | 26 (72%) |
| Da | 9 (25%) | 7 (20%) | 0 (0%) | 1 (3%) | 5 (14%) | 9 (25%) |
| Boddhaol | 1 (3%) | 1 (3%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (3%) | 1 (3%) |
| Anfoddhaol | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) |
| Amherthnasol | 0 (0%) | 1 (3%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) |

5. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: (n=36)

| **Datganiad** | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno i ryw raddau** | **Dim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno i ryw raddau** | **Anghytuno'n gryf** |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae wedi cynyddu fy ngwybodaeth am y pwnc | 33 (92%) | 2 (6%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (3%) |
| Rydw i wedi gwella fy sgiliau | 31 (86%) | 4 (11%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (3%) |
| Mae wedi cynyddu fy hyder i gyflawni fy rôl | 29 (81%) | 6 (17%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (3%) |
| Rwy'n fwy ymwybodol o arfer gorau | 31 (86%) | 4 (11%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (3%) |
| Rwy'n teimlo'n fwy cysylltiedig â chymorth arbenigol | 28 (78%) | 6 (17%) | 1 (3%) | 0 (0%) | 1 (3%) |

Noder: Nid yw pob ymateb yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd gwallau talgrynnu

6. Beth allem ni ei wneud i wella digwyddiadau yn y dyfodol? (n=16)

| |
|---|
| Roeddwn i'n teimlo bod pob agwedd yn dda. |
| Roedd yn wych, yn ddefnyddiol iawn. |
| Roedd yn berffaith. |
| Dim byd. |
| Roedd yn ardderchog, diolch. |
| Rwy'n gweithio'n llawn amser, felly byddai'n rhaid i mi gymryd hanner diwrnodau i ffwrdd o'r gwaith fynychu cyrsiau os ydw i eisiau gwella fy sgiliau. Dyma'r unig gwrs y gallwn i fynychu oherwydd yr amseru (dechrau 12.45), yn anffodus, allwn i ddim mynychu'r lleill am y rheswm hwn. Rwy'n gwybod nad yw hynny'n berthnasol i bawb, ond pe bai modd ystyried y sesiwn hon neu sesiynau gyda'r nos ar-lein, byddai hynny'n wych. |
| Dim llawer. |
| Sesiynau hirach. |
| Argraffwch bapurau ar gefndir llai llachar (melyn, gwyrdd, glas) gan ei bod hi'n haws i'r rhai sydd â Dyslecsia eu darllen. |
| Roedd yn berffaith - diolch. |
| Popeth wedi'i gynllunio a'i weithredu'n dda iawn. Ni fyddwn i'n newid dim. |
| Ar-lein o bosibl hefyd, ond lleoliad da. |
| Efallai gofyn i gyfranogwyr lwytho'r rhaglenni cyfrifiadurol perthnasol ymlaen llaw. Arbed gorfod lawrlwytho/cofrestru'r rhaglenni yn y sesiwn. |
| Dim byd, roedd yn wych. |
| Roedd y lleoliad yn dda yn hytrach nag ardderchog oherwydd bod yr opsiynau goleuo yn rhy gyfyngol ar gyfer gweld y sgrin. Fel arall, roedd yr ystafell yn gyfforddus iawn ar gyfer y nifer oedd yn bresennol. Ni allaf wneud sylwadau am y lluniaeth cinio ond roedd y ddarpariaeth ganol bore yn dda iawn. Dim byd. |
| Dim byd. |

7. Pa un o’r rhain sy’n disgrifio eich rôl orau? (n=36)

| Disgrifiad | Nifer (canran) yr ymatebion |
|---|---|
| Cymuned ac ymgysylltu | 1 (3%) |
| Budd cymunedol | 1 (3%) |
| Dirprwy Brif Swyddog | 1 (3%) |
| Swyddog HRS | 1 (3%) |
| Arweinydd / Prif Swyddog Gweithredol | 8 (22%) |
| Rheolwr cyflogedig | 1 (3%) |
| Rheolwr Gwasanaethau | 1 (3%) |
| Ymddiriedolwr | 2 (6%) |
| Gwirfoddolwr | 2 (6%) |
| Rheolwr / Cydlynydd Gwirfoddolwyr | 18 (50%) |

8. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau neu hyfforddiant yn y dyfodol? (n=12)

| |
|---|
| Canolbwyntio ar reoli gwirfoddolwyr manwerthu elusennol |
| Swyddi seiliedig ar Adnoddau Dynol |
| Cadw/ymgysylltu gwirfoddolwyr, gwirfoddoli i bobl ifanc |
| Iechyd a diogelwch |
| Doeddwn i ddim yn gallu mynychu’r hyfforddiant goruchwylio gwirfoddolwyr felly byddwn i wrth fy modd pe bai hyn yn digwydd eto, hefyd hyfforddiant diogelu grŵp B. |
| Diogelu, rheoli gwirfoddolwyr, cyllidebu cyllid |
| Ysgrifennu bidiau / chwilio am grantiau |
| Barn ymddiriedolwyr ar gynlluniau |
| Astudiaethau achos |
| Diogelu, cadw gwirfoddolwyr |
| Sut i wneud eich gwybodaeth yn hygyrch i bobl â nam ar eu golwg |
| Hyfforddiant cyllid, risg a llywodraethu i ymddiriedolwyr |

9. Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach?

| |
|---|
| Diddorol iawn. Diolch Kasia ac Anna |
| Sesiwn ddefnyddiol a diddorol iawn, diolch |
| Diolch, roedd yn gyfle wedi'i amseru'n dda a rhagorol |
| Diolch am y cwrs diddorol a defnyddiol |
| Diolch |
| Roedd yn ardderchog. Mae Eileen Murphy yn hyfforddwraig wych, rydw i wedi bod ar gyrsiau gyda hi o'r blaen. |
| Diolch yn fawr iawn. |
| Siomedig na allaf fynychu'r cwrs nesaf |
| Diolch |
| Diolch! |
| Byddai'n wych pe bai sesiwn lle byddai pobl o wahanol sefydliadau yn rhoi cyflwyniadau byr am eu gwaith (digwyddiad ar arddull petcha kutcha) ac yn archwilio posibiliadau i gydweithio, detio cyflym sefydliadau, |
| Diolch! |
| Diolch yn fawr - addysgiadol iawn ac wedi'u cyflwyno'n dda. |
| Roedd gan yr hyfforddwr arddull cyflwyno ardderchog a chyflwynodd y cwrs ar y lefel gywir. |
| Diolch |
| Diolch iddo am argraffu'r sleidiau. |
| Roedd yn ddefnyddiol iawn, diolch. |
| Dangosodd ymgysylltiad parod y mynychwyr yr awydd o fewn y sector am ddarparu'r math hwn o bwnc hyfforddi. Roeddwn i'n siomedig iawn o orfod gadael yn gynnar gan fy mod i'n elwa llawer gan ddull Eileen o ymdrin â'r pwnc a'r cyfle i archwilio rôl yr ymddiriedolwr gydag eraill y tu allan i'm sefydliad. |
| Siaradwr rhagorol a oedd yn bendant wrth ateb cwestiynau. |